Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyd-bwyllgorau Corfforedig: Canllawiau Statudol

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44355 ISBN digidol 978-1-80391-610-1

Cynnwys


Ynglŷn â'r canllawiau hyn ..... 3

Diben y canllawiau hyn ..... 3

Terminoleg ..... 5

Pennod Un – Aelodaeth a threfniadau cyfansoddiadol ..... 6

1. Aelodaeth ..... 6
2. Disodli a dirprwyo ..... 6
3. Penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd ..... 7
4. Cynnwys pobl eraill ..... 7
5. Is-bwyllgorau ..... 9
6. Trefniadau pleidleisio ..... 9
7. Datrys anghydfod ..... 10
8. Hyfforddiant i aelodau ..... 10
9. Pwerau a dyletswyddau cydredol ..... 11
10. Cyfansoddiadau a rheolau sefydlog ..... 11
11. Cyflawni swyddogaethau ..... 12
12. Fframwaith safonau moesegol ..... 12
13. Atebolrwydd aelodau a staff ..... 15
14. Taliadau i Aelodau ..... 16
15. Gwahaniaethu yn erbyn aelodau ..... 16

Pennod Dau - Staffio a'r gweithlu ..... 18

16. Gofynion staffio ..... 18
17. Unigolion sy'n cael eu cyflogi'n gyhoeddus ..... 19
18. Cynrychiolaeth undebau llafur ..... 19
19. Telerau ac amodau ..... 19
20. Polisi tâl ..... 20
21. Tryloywder ac atebolrwydd ..... 20
22. Swyddogion statudol ..... 20
23. Pensiynau ..... 21

Pennod Tri – Cyfarfodydd a thrafodion ..... 22

24. Tryloywder a bod yn agored ..... 22
25. Strategaeth gyfranogi ..... 22
26. Cynllun deisebau ..... 23
27. Darlledu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ..... 23
28. Cyfarfod cyntaf ..... 24
29. Cworwm mewn cyfarfod ..... 25
30. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ..... 25
31. Cynnal cyfarfodydd eraill yn ôl penderfyniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chyfarfodydd eithriadol ..... 25

32. Cyfarfodydd aml-leoliad ........ 25
Pennod Pedwar - Llywodraethu a chraffu ........ 27
33. Perfformiad a llywodraethu ........ 27
34. Trefniadau trosolwg a chraffu ........ 27
35. Llywodraethu ac archwilio ........ 28
Pennod Pump – Ariannu, cyllid a materion cyllidebol ........ 29
36. Gofynion cyllidebol ........ 29
37. Ariannu'r gofyniad cyllidebol ........ 30
38. Cyllideb blwyddyn gyntaf ........ 30
39. Arferion a rheolaethau cyfrifyddu ........ 30
40. Cadw, paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol blynyddol ........ 31
41. Archwilio a chyfrifyddu priodol ........ 31
42. Darparu a derbyn nwyddau a gwasanaethau ........ 31
43. Arferion buddsoddi ........ 32
44. Cael benthyg ........ 32
Pennod Chwech – Dyletswyddau statudol eraill ........ 33
45. Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel corff cyhoeddus yng Nghymru ........ 33
46. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 34
47. Y Gymraeg ........ 35
48. Cydraddoldeb ........ 36
49. Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ........ 37
50. Rhyddid Gwybodaeth ........ 38
Atodiad A – Crynodeb o'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig ........ 39

# Ynglŷn â'r canllawiau hyn

## Diben y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n ymwneud â sut y dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021 weithredu a'r materion y bydd yr aelodau yn dymuno eu hystyried wrth sefydlu'r trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol ar gyfer eu Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff cyhoeddus, ac yn rhan bwysig o'r teulu llywodraeth leol.

Bydd aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig eisiau ystyried o'r dechrau sut y byddant yn dangos llywodraethu da drwy gynnal safonau uchel o ymddygiad; gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun trefniadau craffu effeithiol; ac ymgysylltu ag eraill a'u cynnwys yn y penderfyniadau a wnânt.

Yn yr un modd, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol am reoli arian cyhoeddus ac felly mae'n hanfodol eu bod yn atebol am y ffordd y defnyddir yr arian hwnnw a bod ganddynt drefniadau rheolaeth ariannol a chraffu cadarn ar waith.

Yn ogystal, fel corff cyhoeddus, bydd disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio â nifer o ddyletswyddau cyffredinol, sy'n allweddol i sut mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru. Bydd angen i aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig ystyried sut y bydd yn cydymffurfio â dyletswyddau o'r fath a nodir hyn yn fanylach ym Mhennod chwech.

Bwriad y canllawiau yw cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sefydlu'r trefniadau hyn, ac ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol ynghylch ffurf y trefniadau – mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i ddarparu hyblygrwydd ac i alluogi disgresiwn lleol lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r canllawiau hefyd wedi'u bwriadu i helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymdrin â threfniadau o'r fath mewn modd cymesur, gan eu haddasu i amgylchiadau lleol. Mae'n bwysig bod aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn penderfynu drostynt eu hunain beth sy'n briodol a beth sy'n diwallu eu hanghenion wrth ddatblygu eu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Mae'n bwysig nodi na fydd ac na all y canllawiau fynd y tu hwnt i'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â beth y mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig ei wneud.

Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth yr un pwerau a dyletswyddau yn fras â'u cynghorau cyfansoddol. Mae'r canllawiau'n cadarnhau beth fydd y gofynion hyn ac yn tynnu sylw at feysydd penodol i'w hystyried gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rydym yn cydnabod y bydd awdurdodau lleol eisoes yn gyfarwydd â'r gofynion hyn, a bod canllawiau eisoes ar gael mewn cysylltiad â llawer ohonynt.

Nid yw'r canllawiau'n bwriadu disodli neu danseilio arferion da presennol mewn trefniadau rhanbarthol ond yn hytrach eu cydnabod a chefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i adeiladu arnynt. Maent wedi cael eu llywio gan waith ymgynghori gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain a thrafodaethau sy'n parhau gyda llywodraeth leol.

Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eisiau ystyried sut y gallant weithio gyda'i gilydd i lunio a chefnogi eu gwaith, gan ddatblygu dulliau gweithredu cyffredin 'unwaith i Gymru' lle bo hynny'n briodol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Gwyddom fod y dull gweithredu hwn o dan arweiniad sectorau yn ffordd lwyddiannus o ysgogi, perchnogi, rhannu a chynnal ymarfer effeithiol. Bydd Rhaglen Gwella a Chymorth CLILC yn darparu amrywiaeth o gymorth cyffredinol a phenodol y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu manteisio arno.

Mae'r canllawiau yn ymdrin â'r trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol, nid y swyddogaethau a fydd yn cael eu harfer - bydd canllawiau ar wahân ar baratoi Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu bod rhaid i brif gynghorau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â Rhan 5 o'r Ddeddf honno, Penodau 3, 4 a 5, ac mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol, sy'n ymwneud â Rhan 5, Penodau 4 a 5.

Fel gyda phob cam o ddatblygu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, mae dwy egwyddor allweddol yn sail i ddatblygu'r canllawiau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

- Dylid trin Cyd-bwyllgor Corfforedig fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol' a, lle bo hynny'n briodol, dylai fod yn rhwym i raddau helaeth wrth yr un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y mae'n gweithredu. Y bwriad yw osgoi, cyn belled ag y bo modd, gwneud i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wneud pethau mewn ffordd sy'n anghyfarwydd i'r rheini mewn llywodraeth leol neu greu gweithdrefnau, rhwymedigaethau, pwerau ac ati newydd ac anghyfarwydd a allai gynyddu beichiau gweinyddol; a
- Dylai'r manylion ynghylch sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu yn ymarferol gael eu gadael i aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun benderfynu arnynt. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i amrywio rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu gwahanol anghenion ac uchelgeisiau eu rhanbarth.

Nid yw'r canllawiau hyn yn ceisio darparu dadansoddiad manwl o / canllawiau ar bob agwedd ar y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn hytrach, mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu, yn y lle cyntaf, i gefnogi'r broses o sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac yn benodol i ystyried y meysydd hynny lle mae'r ddeddfwriaeth yn darparu hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Wrth ddatblygu'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chyda chytundeb llywodraeth leol, mae dull gweithredu fesul cam wedi'i fabwysiadu:

- Yn y cam cyntaf, gwnaed y ddeddfwriaeth leiaf a oedd yn angenrheidiol i sefydlu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ac i gymhwyso dyletswyddau sector cyhoeddus penodol i'r Cyd-bwyllgorau. Yn ogystal â'r Rheoliadau Sefydlu, roedd nifer o offerynnau statudol cysylltiedig a oedd yn sicrhau trefniadau llywodraethu a goruchwylio priodol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r cychwyn cyntaf. Gweler Atodiad A.
- Yn yr ail gam, gwnaed darpariaethau deddfwriaethol ehangach (pwerau a dyletswyddau) a fydd yn sail i weithrediad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd hyn yn cynnwys rolau 'swyddogion gweithredol' penodol i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac er mwyn i swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gael eu cyflawni gan bobl eraill, er enghraifft ei staff neu ei is-bwyllgorau, yn ogystal â rhai darpariaethau cyffredinol ynghylch staff Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac ar gyfer cyfarfodydd a thrafodion. Gweler Atodiad A eto.
- Mae trydydd cam wedi'i gynllunio ar gyfer gwanwyn 2022 i barhau i gymhwyso'r fframwaith deddfwriaethol llywodraeth leol y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu ynddo. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch ymddygiad, y pŵer i fasnachu a nifer o fân ddarpariaethau ynghylch cyllid, achosion cyfreithiol, cofnodion / dogfennau a materion yn ymwneud â staffio a'r gweithlu.
- Yn y pedwerydd cam, bydd y ddarpariaeth sy'n weddill yn cael ei gwneud, gan gynnwys darpariaeth ynghylch rheolau sefydlog a chymhwyso'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu ar gyfer llywodraeth leol iddynt. Bydd hyn yn ategu'r

gofynion sydd eisoes wedi'u sefydlu ynghylch tryloywder eu gwaith a hygyrchedd a chyfranogiad cyhoeddus.

Mewn rhai achosion lle nad yw'r ddeddfwriaeth llywodraeth leol berthnasol wedi cael ei chymhwyso i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, bydd y canllawiau yn nodi bwriad y polisi i sicrhau y gall y Cyd-bwyllgorau ymsefydlu yn unol â'r hyn y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn darparu ar ei gyfer. Mewn achosion o'r fath, nodir hyn yn glir yn y testun. Rhaid cydnabod y bydd unrhyw reoliadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad. Felly, er y bydd y canllawiau hyn yn gwneud pob ymdrech i adlewyrchu bwriad y polisi, gall y darpariaethau ac felly'r canllawiau hyn newid o ganlyniad i ymgyngoriadau yn y dyfodol.

Mewn nifer o leoedd, bydd y canllawiau hefyd yn gweithredu fel canllawiau 'interim', cyn, a chan ragdybio, cyhoeddi'r Llawlyfr Democratiaeth, a ddisgwylir ddechrau 2022. Lle bynnag y bo modd, bydd y canllawiau'n adlewyrchu'r dull sydd i'w ddilyn yn ôl y llawlyfr hwnnw. Ar ôl cyhoeddi'r Llawlyfr Democratiaeth, mae'n debygol y bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru i ystyried y dull gweithredu yn y Llawlyfr.

Mae'n bwysig bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u cynghorau cyfansoddol yn cyfeirio at destun pob darn o ddeddfwriaeth fel y ffynhonnell gyntaf o wybodaeth ynghylch beth yw'r gofynion a sut i'w bodloni.

Lle mae testun y ddeddfwriaeth ei hun yn hunanesboniadol, ni roddir arweiniad pellach.

## Terminoleg

Mae cyfeiriad at y "Ddeddf" yn golygu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dylid dehongli'r term 'awdurdod lleol' i olygu Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol (y cyfeirir atynt hefyd mewn deddfwriaeth fel 'Prif Gynghorau').

Dylid dehongli'r term 'cyngor cyfansoddol' i olygu'r cynghorau sir neu'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny a nodir yn y Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid ystyried bod hyn hefyd yn cynnwys yr Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol.

Mae cyfeiriadau at y "Rheoliadau Sefydlu" yn golygu'r pedair set o reoliadau sy'n sefydlu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig presennol (sydd, ar y cyfan, yn union yr un fath) sef:

- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De Cymru 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru 2021

Mae cyfeiriadau at "Reoliadau Cyffredinol 2021" yn golygu Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021

Mae cyfeiriadau at "Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021" yn golygu Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Mae cyfeiriadau at y "Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig" yn golygu'r holl reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y'u nodir yn Atodiad A.

## Pennod Un – Aelodaeth a threfniadau cyfansoddiadol

Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gorff corfforaethol ar wahân sy’n cynnwys ei gynghorau cyfansoddol, bydd yn arfer rhai o swyddogaethau penodol awdurdod lleol a bydd yn atebol yn ddemocrataidd drwy ei gynghorau cyfansoddol am y swyddogaethau y mae’n eu cyflawni. Bydd y swyddogaethau y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu harfer yn cael eu nodi mewn rheoliadau.

### 1. Aelodaeth

1.1 Mae aelodaeth pob Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi’i nodi yn y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig hwnnw. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy’n darparu’r fframwaith ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddarparu bod uwch aelodau gweithredol yr awdurdodau lleol yn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn aelodau o’r pwyllgor. Arweinydd y prif gyngor fydd hwn yn y rhan fwyaf o achosion ond gallai hefyd fod yn faer os bydd prif gyngor yn gweithredu o dan weithrediaeth maer a chabinet.

1.2 Pan fydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymarfer y swyddogaeth o baratoi Cynllun Datblygu Strategol, mae’r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol hefyd yn aelod o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Caiff aelodau cyngor ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddewis, mewn cytundeb ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ymestyn aelodaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynnwys dibenion/swyddogaethau eraill (gweler Rheoliad 8 o’r Rheoliadau Sefydlu).

1.3 Os bydd swydd arweinydd cyngor cyfansoddol neu swydd aelod enwebedig perthnasol Awdurdod Parc Cenedlaethol yn destun trefniant rhannu swydd, dylid trin y bobl hynny sy’n ymwneud â rhannu swydd fel petaent yn un person at ddibenion y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

### 2. Disodli a dirprwyo

2.1 Mae swydd aelod cyngor ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn perthyn i rôl yr uwch aelod o’r cyngor cyfansoddol ac nid i ddeiliad unigol y swydd (neu ddeiliaid y swydd lle rhennir y rôl). Felly, mewn amgylchiadau lle mae hyn yn newid, fel ad-drefnu neu ymddiswyddo, rhaid i aelodaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig newid hefyd.

2.2 Os oes gan gyngor cyfansoddol swydd wag ar lefel yr uwch aelod, yna rhaid i’r cyngor cyfansoddol hwnnw benodi aelod arall o’r weithrediaeth i fod yn aelod o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig hyd nes y llenwir y swydd wag honno (Rheoliad 7 o’r Rheoliadau Sefydlu).

2.3 Mewn amgylchiadau lle nad yw'r aelod o'r cyngor yn gallu mynychu cyfarfod penodol, gall aelod o’r cyngor enwebu rhywun o weithrediaeth ei gyngor i fynychu yn ei le. Dylai trefniadau o’r fath fod yn rhai dros dro ac o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft absenoldeb oherwydd salwch tymor byr, absenoldeb tosturiol. Bydd y rheoliadau a gynigir ar gyfer gwanwyn 2022 yn ymdrin â’r prosesau ar gyfer hyn.

2.4 Pan na all yr aelod o’r cyngor weithredu fel yr aelod o’r cyngor am gyfnod o amser, rhaid i gyngor cyfansoddol benodi aelod arall o'r weithrediaeth i weithredu ar ran yr aelod o'r cyngor. Eto, bydd y rheoliadau a gynigir ar gyfer gwanwyn 2022 yn ymdrin â hyn. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad amherir ar waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig gan amgylchiadau a allai effeithio ar unigolyn megis:

- salwch tymor hir

- absenoldeb teuluol
- absenoldeb rhiant
- cyfrifoldebau gofalu
- gwrthdaro rhwng buddiannau

2.5 Yn yr un modd, mae swydd aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol yn perthyn i un o’r tair rôl a restrir yn Rheoliad 8(2) o’r Rheoliadau Sefydlu ac nid i ddeiliaid y swydd eu hunain. Felly, mewn amgylchiadau lle mae deiliad y swydd yn newid, bydd yr unigolyn sy’n dal swydd yr aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol yn newid hefyd.

## 3. Penodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd

3.1 Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig ethol cadeirydd a dirprwy gadeirydd o blith ei aelodau o’r cynghorau cyfansoddol, gweler paragraff 2 o Atodlen 1 i’r Rheoliadau Sefydlu.

3.2 Rhaid i’r cadeirydd a’r dirprwy gadeirydd gael eu hethol fel rhan o gyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yna gael eu hailethol, neu benodi cadeirydd a/neu ddirprwy gadeirydd newydd, yn flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae’r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu (paragraff 2(1)(b) o Atodlen 1) ar gyfer cadeirio’r cyfarfod cyntaf, cyn ethol y cadeirydd.

3.3 Os bydd swyddi'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd yn wag ar yr un pryd, yna mae’r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (paragraff 2(7) o atodlen 1) hefyd yn darparu ar gyfer cadeirio cyfarfod hyd nes y caiff cadeirydd ei ethol.

## 4. Cynnwys pobl eraill

4.1 Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau a’u dyletswyddau’n effeithiol, bydd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gynnwys eraill yn weithredol yn eu gwaith, a bydd disgwyl iddynt wneud hynny. Bydd yn bwysig bod pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif a dull gweithredu ehangach ar gyfer ei waith. Bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn gan ystyried ei amgylchiadau unigryw ei hun.

4.2 Mae’r rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi’r hyblygrwydd iddynt i ymgysylltu â phobl eraill a’u cynnwys yn eu gwaith drwy gyfethol (gweler Rheoliad 9 o’r Rheoliadau Sefydlu). Mater i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu pwy sy’n cael ei gyfethol a sut y cânt eu cyfethol (telerau’r cyfethol). Mewn rhai achosion, gall aelodau hefyd alluogi aelodau cyfetholedig i bleidleisio ar faterion o’r fath. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr aelodau cyngor fydd yn penderfynu oni bai fod a wnelo mater ag arfer y swyddogaethau yn Rheoliad 13 o'r Rheoliadau Sefydlu ac, os felly, bydd penderfyniadau o'r fath yn cynnwys yr aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol.

4.3 Dyma fanteision cyfethol i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig:
- cryfhau ehangder y profiad a’r sgiliau sydd ar gael i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig
- galluogi mewnbwn lleol neu ddarparu ar gyfer cynrychiolaeth leol
- darparu arbenigedd ar faterion penodol

4.4 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eisiau ystyried y math a’r ystod o sefydliadau y maent yn dymuno iddynt gael eu cynrychioli gan aelodau cyfetholedig, yn seiliedig ar y sgiliau a’r profiad a fydd yn fuddiol ac yn berthnasol i’w gwaith – er enghraifft cynrychiolwyr:
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch

- Cynrychiolwyr y trydydd sector
- Sefydliadau Busnes neu Sector penodol
- Undebau Llafur

4.5 Gallent yn yr un modd fod yn unigolion preifat ag arbenigedd a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.6 Gall aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd ddewis cyfethol aelodau eraill o'r cynghorau cyfansoddol – er enghraifft, arweinwyr portffolio y swyddogaethau trafnidiaeth, cynllunio strategol neu ddatblygu economaidd. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i is-bwyllgorau pwnc-benodol.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae partneriaeth gymdeithasol yn cyfeirio at ffordd ryngweithredol o weithio ac yn fwy cyffredinol at syniad; gwerth a ddylai fod yn sail i bopeth a wnawn. Gall annog cydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n ffordd o hyrwyddo twf economaidd a gwelliannau llesiant. Mae partneriaeth gymdeithasol yn dwyn ynghyd lywodraeth ar bob lefel, cyflogwyr ac undebau llafur mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, i ddylunio atebion gwell a'u rhoi ar waith. Disgwylir y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio o dan yr un dull partneriaeth gymdeithasol ag sy'n bodoli rhwng undebau llafur a phrif gynghorau. Dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried sut maen nhw'n cynnwys undebau llafur yn eu gwaith ac yn y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Gall hyn fod drwy gyfethol undebau llafur neu gynrychiolydd undeb llafur yn ffurfiol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig a / neu un neu fwy o'i is-bwyllgorau (os yw'n dewis cael is-bwyllgorau) neu drwy drefniadau llai ffurfiol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i waith teg ac mae wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth yn y cyswllt hwn. Bydd disgwyl i unrhyw ddarpariaethau mewn perthynas â gwaith teg sy'n berthnasol i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill fod yn berthnasol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd.

4.8 Wrth ystyried pwy i gyfethol, dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd ystyried cefndiroedd ac amgylchiadau, rhyw, oed ac amrywiaeth ddiwylliannol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a sut y gallai'r rhai y maent yn eu cyfethol adlewyrchu orau amrywiaeth eu cymunedau – ond gan gofio'r angen i allu pob cyfranogwr ddangos y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol i gyfrannu at effeithiolrwydd ei waith.

4.9 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy y gellir ei gyfethol, am ba hyd y mae'n cael ei gyfethol, at ba ddiben y caiff ei gyfethol neu a yw'n cael ei gyfethol gyda neu heb hawliau pleidleisio (ond gweler y trefniadau pleidleisio) – gadewir hyn yn gyfan gwbl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu arno. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig nodi materion o'r fath mewn hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod cyfetholedig (gweler Rheoliad 9(2) o'r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig).

4.10 Wrth gyfethol aelodau, efallai y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried (ymysg pethau eraill):

- at ba ddiben y mae aelodau cyfetholedig yn cael eu cyfethol, er enghraifft pa swyddogaeth neu swyddogaethau
- y 'cyfnod cyfethol', (am ba hyd y cânt eu cyfethol) er enghraifft cyfnod penodol, adnewyddu'n flynyddol neu am gyfnod amhenodol hyd nes y terfynir y cyfethol;
- pa un a yw aelodau cyfetholedig yn cael eu hethol gyda neu heb hawliau pleidleisio (gweler y cyfyngiadau ar bleidleisio i aelodau cyfetholedig)
- os yw aelodau cyfetholedig i gael hawliau pleidleisio, a yw'r hawliau hynny ar gyfer un swyddogaeth, rhai swyddogaethau neu bob swyddogaeth, a / neu ar drefniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

- a yw'r aelodau cyfetholedig yn cael eu cyfethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun neu i un o'i is-bwyllgorau, neu'r naill a'r llall.

## 5. Is-bwyllgorau

5.1 Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu is-bwyllgorau i'w gefnogi i arfer ei swyddogaethau a/neu i gefnogi ei drefniadau llywodraethu a gweinyddu. Fodd bynnag, ni ellir dirprwyo rhai swyddogaethau i is-bwyllgor ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Rheoliadau Sefydlu (Rheoliad 15). Mae is-bwyllgorau'n ffordd bwysig o gynnwys eraill ac o sicrhau bod cyngor arbenigol priodol a phenodol i'r sector ar gael i gefnogi'r penderfyniadau y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eu gwneud. Gall is-bwyllgorau hefyd roi cyfle i fynd ati'n fwy manwl i drafod, ystyried a gwneud penderfyniadau ar faterion penodol.

5.2 Materion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu arnynt yw rôl, rheolau a gweithdrefnau (neu gylch gorchwyl) is-bwyllgorau a sefydlir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac maent ar ddisgresiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llwyr. Oni nodir yn wahanol mewn deddfwriaeth, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu dirprwyo'r broses o wneud penderfyniadau i is-bwyllgor, os yw'n dymuno gwneud hynny.

5.3 Er nad yw is-bwyllgorau yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth, ac eithrio is-bwyllgor Safonau (gweler paragraffau 12.9-12.14) ac is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (paragraff 35) disgwylir y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer pob un o'r meysydd swyddogaethol allweddol y maent yn eu harfer. Rhagwelir y bydd yr is-bwyllgorau hyn yn rhoi cyfle i ymgysylltu'n ehangach a chynnwys amrywiaeth o randdeiliaid perthnasol.

5.4 Gall is-bwyllgorau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynnwys aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun. Gallant hefyd gynnwys aelodau cyfetholedig (gweler paragraffau 4.1-4.10). Gallai hefyd fod yn bosibl i is-bwyllgorau gynnwys dim ond aelodau cyfetholedig os yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r farn bod hyn yn briodol. Er enghraifft, gallai is-bwyllgorau o'r fath gael eu harwain gan aelod perthnasol neu ddeiliad portffolio perthnasol o fewn gweithrediaeth y cynghorau cyfansoddol. Yn ogystal, mae'n bosibl i bobl fynychu Cyd-bwyllgor Corfforedig neu is-bwyllgor, er enghraifft, i gyflwyno ar sail unwaith yn unig.

5.5 Wrth sefydlu is-bwyllgorau, ac ystyried pwy i'w gynnwys ar yr is-bwyllgor, efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried, yn ogystal â'r materion hynny yn 4.10 uchod:

- natur y dasg/gweithgaredd i'w ystyried
- yr arbenigedd/sgiliau perthnasol y gallai fod eu hangen i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth iddo wneud penderfyniadau
- rhyw, amrywiaeth a chydbwysedd diwylliannol aelodaeth is-bwyllgorau a sut y gallai/dylai hyn gynrychioli'r cymunedau y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu gwasanaethu

5.6 Gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd ystyried amseriad cyfarfodydd ei is-bwyllgorau, a'i gyfarfodydd yn fwy cyffredinol, a sut y gallai hyn helpu i gefnogi amrywiaeth ei aelodaeth a chyfranogiad pobl eraill yn ei waith.

## 6. Trefniadau pleidleisio

6.1 Y sefyllfa ddiofyn ar gyfer trefniadau pleidleisio Cyd-bwyllgor Corfforedig yw 'un bleidlais un aelod' a sefydlir yr holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar y sail hon i ddechrau. Fodd bynnag, ar ôl eu sefydlu, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu

mabwysiadu trefniadau pleidleisio eraill os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mewn rhai achosion, megis Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru sydd â dim ond dau gyngor cyfansoddol, gallai mabwysiadu gweithdrefn bleidleisio amgen fod yn gymorth i gynnwys eraill drwy gyfethol, yn enwedig os oedd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno rhoi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig.

6.2 Bydd yn ofynnol i unrhyw benderfyniad i fabwysiadu trefniant pleidleisio amgen fod yn benderfyniad unfrydol gan bawb sydd â hawl i bleidleisio ar faterion o'r fath, a rhaid i bob un ohonynt fod yn bresennol. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig am ystyried sut y gall unrhyw drefniadau pleidleisio amgen fod yn gymesur, yn gywir, yn effeithlon, yn dryloyw ac yn ddiogel. Mae'n bwysig bod gweinyddiaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dryloyw ac yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Dylai unrhyw drefniant pleidleisio amgen a fabwysiedir fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall a bydd gofyn ei nodi yn y rheolau sefydlog.

6.3 Ni cheir dirprwyo penderfyniadau ar drefniadau pleidleisio amgen i is-bwyllgor neu berson(au) eraill.

## 7. Datrys anghydfod

7.1 Fel y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, mae pob mater, ar wahân i fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen a chyllido gofyniad cyllidebol, i'w benderfynu gan fwyafrif syml (oni bai fod gweithdrefn amgen yn cael ei mabwysiadu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig). Fodd bynnag, gan fod pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys nifer gwastad o gynghorau cyfansoddol, mae potensial i gael pleidlais gyfartal ac, os felly, ac eithrio materion sy'n ymwneud â swyddogaeth y Cynllun Datblygu Strategol (lle mae gan y cadeirydd bleidlais fwrw) nid yw'r mater yn cael ei dderbyn lle mae'r bleidlais yn gyfartal.

7.2 Er ei bod yn bosibl y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dymuno gweithio drwy gonsensws, mae posibilrwydd y gallai materion o'r fath lle ceir pleidlais gyfartal droi'n anghydfod h.y. nad ydynt yn gallu dod i benderfyniad drwy fwyafrif syml.

7.3 Mae'n wir y gellir gohirio unrhyw faterion o'r fath i'w hailystyried ac nid oes dim i atal hyn rhag digwydd nes y gellir dod i gytundeb drwy fwyafrif. Fodd bynnag, efallai y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried rhoi trefniadau priodol ac amserol ar waith ar gyfer sefyllfa lle na fydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu dod i benderfyniad drwy fwyafrif syml, yn enwedig lle gallai hyn atal y Cyd-bwyllgor Corfforedig rhag cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried, er enghraifft;

- mabwysiadu trefniadau pleidleisio amgen i gyflwyno pleidlais fwrw i'r cadeirydd ar gyfer rhai swyddogaethau neu o dan rai amgylchiadau; a / neu
- gweithdrefnau ar gyfer cyflafareddu (gan gynnwys cyflafareddu annibynnol os yw hynny'n briodol).

## 8. Hyfforddiant i aelodau

8.1 Efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried hyfforddiant priodol a chymesur ar gyfer ei aelodau ac unrhyw aelodau cyfetholedig. Bydd darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac aelodau cyfetholedig yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gymryd rhan lawn yng ngwaith y cyd-bwyllgor. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â natur aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau aelodau ar Gyd-bwyllgor Corfforedig. Efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn dymuno rhoi cefnogaeth i'w aelodau o ran eu perthynas â'u cyngor cyfansoddol a'u cynrychiolaeth ohono, a

chefnogi ac annog atebolrwydd democrataidd aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyda'u cyngor cyfansoddol.

8.2 Gall hyfforddiant fod yn arbennig o bwysig i aelodau cyfetholedig, er enghraifft i'w cefnogi i ddeall eu rôl ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, natur y swyddogaethau o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gweinyddiaeth a llywodraethiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig a pherthynas y Cyd-bwyllgor Corfforedig â chyrff / sefydliadau cyhoeddus eraill.

## 9. Pwerau a dyletswyddau cydredol

9.1 Bydd yn bwysig bod gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar lefel ranbarthol yn ategu, yn cefnogi ac yn cyd-fynd â gwaith y cynghorau cyfansoddol ar lefel leol. Mewn rhai achosion, er enghraifft cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol, bydd cyflawni swyddogaethau ar lefel leol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir yn rhanbarthol gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig; hynny yw, o ran natur y penderfyniad ac amseriad gwneud penderfyniadau.

9.2 Mewn achosion eraill pan fo gan y cynghorau cyfansoddol a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig bwerau tebyg ar y cyfan, er enghraifft yn achos y pŵer llesiant economaidd, mae gan y ddau'r un hawliau i arfer y pwerau yn eu priod ardaloedd. Ni fydd y pwerau hynny'n lleihau os bydd y naill barti neu'r llall yn eu harfer. Cyfeirir at y rhain fel pwerau cydredol. Ar gyfer pwerau cydredol, bydd yn bwysig llunio cytundebau i sicrhau eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth, pryd, ble a sut; gan atal dyblygu a hybu synergedd rhwng camau gweithredu rhanbarthol a lleol. Materion i'r cynghorau cyfansoddol benderfynu arnynt fydd pa fathau o benderfyniadau, swyddogaethau a/neu weithgareddau fydd yn aros ar lefel leol a pha rai y byddai'n well eu cyflawni ar lefel ranbarthol drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

9.3 Disgwylir y byddai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ceisio cytuno ar broses gyda'i gynghorau cyfansoddol sy'n nodi sut y bydd arfer swyddogaethau cydredol yn cael ei reoli. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- cytuno ar y gweithgareddau penodol sydd o fewn cwmpas y cytundeb
- cytuno sut y gweithredir ar faterion cydredol a sut y cyfathrebir nhw rhwng y partïon
- darparu eglurder ynghylch sut y caiff cytundeb ar faterion cydredol ei gyflawni, ei adolygu a sut y gellir datrys anghydfodau.

## 10. Cyfansoddiadau a rheolau sefydlog

10.1 Bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael cyfansoddiad. Bydd y gofyniad hwn wedi'i nodi yn y rheoliadau arfaethedig, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 (drwy gymhwyso adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000). Rhaid cynnwys copi o reolau sefydlog y Cyd-bwyllgor Corfforedig, copi o god ymddygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw wybodaeth y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried yn briodol. Gall y cyfansoddiad hefyd ystyried y materion a nodir yn y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan gynnwys, er enghraifft, yr Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu. Efallai y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig am ystyried gweithio gyda'r sector llywodraeth leol i fabwysiadu cyfansoddiad safonol sy'n adlewyrchu'r dull gweithredu ar draws llywodraeth leol.

10.2 Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu rheolau sefydlog i nodi materion trefniadol, gweinyddol a gweithdrefnol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau (paragraff 8 o'r Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu) a materion eraill fel y'u nodir yn y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd y rheolau sefydlog hefyd yn nodi materion penodol mewn perthynas â staff, gan

gynnwys; codau ymddygiad (para 12.1-12.7); protocol ar gysylltiadau rhwng aelodau / swyddogion; a swyddogaeth penodi a diswyddo aelodau staff y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chymryd camau disgyblu yn eu herbyn (sut bynnag y'u penodir). Cynigir rheoliadau pellach fel rhan o'r rheoliadau cam 4 a drafodir yn yr adran 'diben y canllawiau hyn'. Bydd y rhain yn cynnwys darpariaethau ynghylch rheolau sefydlog o dan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006.

## 11. Cyflawni swyddogaethau

11.1 Gall Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu model is-bwyllgorau i arfer rhai o'i swyddogaethau neu i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau (Rheoliad 14 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021), gan gynnwys er mwyn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i is-bwyllgor (Rheoliad 13 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021). Y Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn penderfynu ar y trefniadau, gan gynnwys aelodaeth a hawliau pleidleisio ei is-bwyllgorau fel y gwêl orau (gweler adran 5 uchod).

11.2 Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn gallu gwneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig neu aelod o staff y Cyd-bwyllgor Corfforedig, unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig arall neu unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru (Rheoliad 13 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021). Fodd bynnag, ni ellir dirprwyo rhai swyddogaethau i is-bwyllgor ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Rheoliadau Sefydlu (Rheoliad 15).

11.3 Caiff dau neu ragor o Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd drefnu i gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau ar y cyd.

## 12. Fframwaith safonau moesegol

<u>Cod ymddygiad</u>

12.1 Bydd yn bwysig bod aelodau ac aelodau cyfetholedig o fewn Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un safonau ymddygiad ag aelodau'r cynghorau cyfansoddol. Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 'fframwaith moesegol' ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a'r bwriad yw y bydd yr un 'fframwaith moesegol' hwn yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r fframwaith hwn ar hyn o bryd a bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru i ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad.

12.2 Bwriedir cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a fydd yn dod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y fframwaith moesegol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r Ddeddf honno'n ei sefydlu. Y bwriad yw y bydd Rhan 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn gymwys i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw aelodau ac aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig a'i is-bwyllgorau (os bydd yn dewis sefydlu unrhyw is-bwyllgorau). Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru unwaith y bydd y Rheoliadau perthnasol wedi'u gwneud yng ngwanwyn 2022.

12.3 Ar ôl cymhwyso'r fframwaith moesegol, bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu mabwysiadu ei god ymddygiad ei hun ar gyfer aelodau, a bydd ei aelodau a'i aelodau cyfetholedig yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

12.4 Tan y pwynt hwn, bydd ei aelodau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig o gynghorau cyfansoddol) yn ddarostyngedig i god ymddygiad perthnasol eu hawdurdodau lleol

(Atodlen 1 i Reoliadau Cyffredinol 2021) ac yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy'r codau ymddygiad hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn ofynnol i aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r cynghorau cyfansoddol gofrestru unrhyw fuddiannau personol sydd ganddynt ym musnes y Cyd-bwyllgor Corfforedig yng nghofrestr buddiannau eu cyngor cyfansoddol perthnasol drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eu cyngor.

12.5 Cyn cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig nad ydynt yn dod o gyngor cyfansoddol yn destun cod ymddygiad (nac yn dod o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). Tan y pwynt hwn, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig am ystyried a ddylai fod yn ofynnol i aelodau cyfetholedig, gyda neu heb hawliau pleidleisio, gofrestru / glynu wrth god ymddygiad fel rhan o'r 'telerau cyfethol'. Argymhellir y dylai fod yn ofynnol i'r holl aelodau cyfetholedig fabwysiadu'r cod ymddygiad fel arfer da. Dylid nodi unrhyw ofyniad o'r fath yn yr hysbysiad cyfethol. Unwaith y bydd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wedi'i chymhwyso i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, bydd yr holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yn ddarostyngedig i'r cod ac yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

12.6 Mae Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 yn nodi'r cod ymddygiad ar gyfer cyflogeion cymwys awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Bwriedir i'r cod ymddygiad fod yn berthnasol i weithwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (gweler hefyd Bennod Dau, y staff a'r gweithlu).

12.7 Ni fydd arsylwyr / mynychwyr ad hoc sy'n cael eu gwahodd i roi cyngor neu gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r cod, ond dylent ddilyn egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan yn yr un modd ag y dylai aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd sicrhau bod arsylwyr ad hoc yn ymwybodol o egwyddorion Nolan a'u bod yn ymwybodol o'r safonau sy'n ofynnol pan gânt eu gwahodd i roi cyngor neu i fod yn bresennol. Dylai fod yn ofynnol hefyd i arsylwyr / mynychwyr ad hoc ddatgan unrhyw fuddiannau mewn unrhyw gyfarfodydd o Gyd-bwyllgor Corfforedig y maent yn eu mynychu. Ni ddisgwylir i arsylwyr / mynychwyr ad hoc fod yn ddarostyngedig i gytundeb cyfethol o dan Reoliad 9 o'r Rheoliadau Sefydlu.

Cofrestr buddiannau

12.8 Ar ôl cymhwyso'r fframwaith moesegol, bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gynnal cofrestr buddiannau, i'w sefydlu gan y Swyddog Monitro, ar gyfer ei aelodau ac aelodau cyfetholedig. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cwmpasu ardal ddaearyddol wahanol i'w gynghorau cyfansoddol unigol ac felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol cadw cofrestr berthnasol ar wahân o fuddiannau ar gyfer swyddogaethau ac ardal ddaearyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig (ac mewn perthynas â materion perthnasol y tu allan i'r ardaloedd y gallai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddylanwadu arnynt ac y gallai aelodau elwa arnynt).

Is-bwyllgor Safonau

12.9 Ar ôl cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig benodi is-bwyllgor safonau. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu arno yw sut y caiff y gofyniad hwn ei fodloni. Bydd canllawiau ar weithrediad pwyllgorau safonau yn cael eu cynnwys yn y Llawlyfr Democratiaeth arfaethedig. Dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyfeirio at hyn wrth ystyried gweithrediad eu his-bwyllgor safonau.

12.10 Mae nifer o ddulliau y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddymuno eu hystyried ac sy'n cael eu harchwilio yn yr ymgynghoriad ar y rheoliadau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddio pwyllgor safonau presennol un o'i gynghorau cyfansoddol
- sefydlu ei is-bwyllgor safonau ei hun, y gellid ei boblogi yn unol ag egwyddorion Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 ond gan aelodau pwyllgorau safonau'r cynghorau cyfansoddol
- sefydlu is-bwyllgor safonau yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001

12.11 Ni fydd is-bwyllgor safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu sefydlu cyd-bwyllgor gydag is-bwyllgor safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig arall na dirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i is-bwyllgor ar ei ben ei hun.

12.12 Yn yr un modd â phwyllgorau safonau awdurdodau lleol, bydd yn ofynnol i is-bwyllgor safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig gynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob cyfnod o 12 mis ar ôl cychwyn y darpariaethau fframwaith moesegol.

12.13 Fel gyda chyfarfodydd eraill Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae is-bwyllgor safonau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn debygol o gynnal y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd ar-lein (oni bai fod is-bwyllgor safonau'n dewis cynnal cyfarfodydd ffisegol) ac felly dylid dehongli mynediad, hysbysiad ac argaeledd dogfennau perthnasol bob amser i olygu'n electronig. Dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod holl hysbysiadau, agendâu, cofnodion a dogfennau eraill perthnasol ei is-bwyllgor safonau ar gael ar wefan bwrpasol a / neu mewn ardal ddynodedig o wefannau'r awdurdodau cyfansoddol.

12.14 Bydd yn ofynnol i is-bwyllgor safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig baratoi adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er mwyn cefnogi atebolrwydd a thryloywder democrataidd, gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried darparu copi o'r adroddiad blynyddol hwnnw i'w gynghorau cyfansoddol hefyd.

<u>Swyddog Monitro</u>

12.15 Er mwyn sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol ac nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun unrhyw gamweinyddu, bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benodi Swyddog Monitro sydd â chymwysterau addas ar yr un sail â'r darpariaethau yn adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

12.16 Bydd rôl y Swyddog Monitro hefyd yn cynnwys:

- darparu cefnogaeth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn perthynas â'i gyfarfodydd ac unrhyw gyfarfodydd o'i is-bwyllgor (lle bo hynny'n berthnasol)
- darparu cefnogaeth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i aelodau a swyddogion y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Dylai buddiannau o'r fath gynnwys unrhyw faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau a maes swyddogaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, nid dim ond eu Prif Gyngor eu hunain
- darparu cefnogaeth a chyngor i bob aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth iddynt gyflawni eu rôl
- darparu cefnogaeth a chyngor i bawb a benodir i un o is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth iddynt gyflawni eu rôl
- darparu adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â nifer a graddau'r staff sydd eu hangen i gyflawni'r rôl

12.17 Yn achos absenoldeb neu wrthdaro rhwng buddiannau, gellir enwebu person arall i gyflawni'r swyddogaethau gofynnol (gweler, er enghraifft, adran 5(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliad 8(4) o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021).

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

12.18 Fel y nodir uchod (paragraff 12.4), hyd nes y bydd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn cael ei chymhwyso i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (gwanwyn 2022), bydd aelodau o'r Cyd-bwyllgorau ac aelodau cyfetholedig o gynghorau cyfansoddol yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhinwedd cod ymddygiad eu hawdurdod cyfansoddol. Ar ôl cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, bydd aelodau ac aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ymddygiad neu unrhyw faterion perthnasol eraill o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu Bennod III, Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (pan gaiff ei chymhwyso).

Cwynion

12.19 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel awdurdod rhestredig yn atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 o ran cwynion. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi cryn dipyn o ganllawiau ar brosesau effeithiol ar gyfer delio â chwynion a bydd disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddilyn y canllawiau wrth sefydlu, monitro a chynnal polisïau a phrosesau cwynion effeithiol.

12.20 Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion o fewn swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith yr Ombwdsmon, fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig, i gefnogi a gwella ffyrdd effeithiol o ddelio â chwynion. Mae hyn yn cynnwys darparu pecynnau hyfforddi pwrpasol os oes angen.

12.21 O'r cychwyn cyntaf, dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynnwys trefniadau delio â chwynion wrth ddatblygu eu seilwaith, eu polisïau a'u gweithdrefnau sefydliadol.

## 13. Atebolrwydd aelodau a staff

13.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gorff corfforaethol ynddo'i hun a bydd yr aelodau'n gwneud penderfyniadau ar swyddogaethau sy'n perthyn iddo ef yn unig a / neu sydd wedi'u dirprwyo iddo gan yr awdurdodau lleol, er enghraifft o dan gytundeb ar weithrediad swyddogaethau cydredol megis o dan y pŵer Llesiant Economaidd (gweler paragraff 9 uchod). Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig indemnio ei aelodau (bod â'i indemniad ei hun) am y penderfyniadau a wnânt. Dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddal yr atebolrwydd, yn hytrach nag aelodau unigol, gweithwyr neu eraill sy'n cyflawni swyddogaethau, ar eu rhan.

13.2 Mae adrannau 101 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion mewn perthynas ag indemnio aelodau a swyddogion awdurdodau lleol. Ar ôl cymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweler 12 uchod), bydd hyn yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Y bwriad wedyn yw diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) 2006 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd hyn yn galluogi Cyd-

bwyllgorau Corfforedig i ddarparu indemniadau i unrhyw rai o'u haelodau neu eu swyddogion.

13.3 O ran p'un a yw aelodau cyfetholedig, sydd â hawliau pleidleisio ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn agored i atebolrwydd, mae 'Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006' yn nodi o dan ba delerau y gall hyn ddigwydd. Er nad yw'r Gorchymyn hwn yn cyfeirio'n benodol at aelodau cyfetholedig, nid yw'n eu heithrio gan ei fod yn darparu bod aelod yn golygu aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol.

13.4 Nid yw aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac felly ni ragwelir y bydd angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig indemnio'r cyfryw bersonau.

13.5 Bydd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried sut y byddant yn darparu trefniadau tebyg, fel sy'n angenrheidiol, mewn perthynas â swyddogion a gyflogir ganddynt (a'r rhai nad ydynt yn cael eu cyflogi ganddynt) yr ymddiriedir ynddynt i ddal a rheoli arian ar eu rhan. Mae Adran 114 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi enghraifft o sut y darperir ar gyfer hyn ar hyn o bryd mewn Awdurdodau Lleol a rhagwelir y bydd hyn yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig o wanwyn 2022 ymlaen.

13.6 Mae'n ofynnol yn ôl Adran 1 Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 bod ag yswiriant rhag atebolrwydd am weithwyr – mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr sy'n rhedeg unrhyw fusnes ym Mhrydain Fawr yswirio, a chynnal yswiriant, dan un neu fwy o bolisïau cymeradwy gydag yswiriwr neu yswirwyr awdurdodedig yn erbyn atebolrwydd am anaf corfforol neu glefyd a ddioddefir gan ei weithwyr.

## 14. Taliadau i Aelodau

14.1 Bydd penderfyniadau ynghylch taliadau i aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu gwneud gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n gorff a sefydlwyd i benderfynu ar y taliadau y mae awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu gwneud i'w haelodau etholedig (Rheoliad 4 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021).

14.2 Ni ragwelir y bydd aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (neu eu his-bwyllgorau) sydd eisoes yn aelodau etholedig o'u hawdurdodau 'cartref' yn derbyn cyflog ychwanegol mewn perthynas â'u rôl ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ond rhywbeth i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ei ystyried fydd materion o'r fath. Bydd gan aelodau hefyd hawl i dderbyn taliadau am eitemau megis costau teithio a chynhaliaeth ar fusnes Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig roi trefniadau priodol ar waith i hwyluso taliadau o'r fath.

14.3 Mae'r Panel hefyd yn gallu ystyried a yw cymorth ychwanegol yn briodol i fynd i'r afael â materion penodol, er enghraifft, mae wedi penderfynu'n flaenorol y dylai aelodau awdurdodau lleol gael cymorth i helpu gyda chostau gofalu am ddibynyddion.

## 15. Gwahaniaethu yn erbyn aelodau

15.1 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Pennod 6 y canllawiau hyn) a fydd yn cynnwys dyletswyddau i sicrhau nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gwahaniaethu yn erbyn, yn erlid nac yn aflonyddu ar unrhyw un o'i aelodau wrth gyflawni busnes swyddogol

dros ac ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig (ad58 Deddf Cydraddoldeb 2010). Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried sut mae’n darparu’r un amddiffyniad neu amddiffyniad tebyg i unrhyw aelodau cyfetholedig ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac efallai y bydd yn dymuno nodi hyn fel rhan o’r hysbysiad cyfethol.

## Pennod Dau - Staffio a'r gweithlu

Mae’n bwysig bod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y staff sydd eu hangen arno i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cyflogi a recriwtio eu staff eu hunain (ar eu teilyngdod); gwneud cytundebau fel bod staff o gyrff eraill ar gael i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, a darparu staff i gyrff eraill; comisiynu gwasanaethau / adnoddau staff gan gyrff eraill; benthyg neu rannu adnoddau staff gyda chyrff eraill; ac ymgymryd â secondiadau (i mewn ac allan). Ni fydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu un dull gweithredu ar gyfer eu holl ofynion o ran adnoddau staff ond gall fabwysiadu dull gweithredu cymysg fel y bo’n briodol.

### 16. Gofynion staffio

16.1 Mater i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig, a’i Swyddogion Gweithredol, fydd penderfynu beth sy’n briodol ar gyfer ei ardal ac ar gyfer pob swyddogaeth y mae’n ei harfer, a pha staff y mae arno ei angen i allu cyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol. Mae’n bwysig nodi y gallai’r gofyniad staffio newid wrth i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu a bydd y dull staffio yn debygol o fod yn gymesur â’i gam datblygu ac â’i swyddogaethau. Er enghraifft, bydd y gofynion staffio cyn dechrau’r swyddogaethau strategol yn debygol o fod yn fach iawn wrth i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig roi ei drefniadau cyfansoddiadol a gweithredol ar waith. Wrth i swyddogaethau gychwyn neu drosglwyddo / bontio i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gallai hyn olygu bod angen lefelau staffio mwy sylweddol.

16.2 Yn y lle cyntaf, mae’n debygol y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio staff ar fenthyg/secondiad, ac wrth iddynt ddatblygu gallent wedyn ystyried yr holl opsiynau posibl ar gyfer staffio er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar lefel ranbarthol. Wrth ystyried benthyg / secondio staff, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig am ystyried sut i nodi, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau ymysg staff ar fenthyg / secondiad, yn enwedig ar gyfer swyddogion statudol a fydd â chyfrifoldeb personol mewn perthynas â safonau cyfreithiol, ariannol a moesegol ac ati.

16.3 Wrth ystyried ei ofynion staffio a’i ddull gweithredu, efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried:

- a oes i’r rôl unrhyw ofynion statudol
- a oes angen unrhyw sgiliau neu gymwysterau penodol ar gyfer y rôl
- a yw’r rôl yn un dros dro (er enghraifft fel rhan o gylch cynllunio) neu’n un fwy parhaol a pharhaus
- os oes sgiliau neu allu penodol o fewn y cynghorau cyfansoddol y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu ceisio

16.4 Gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd droi at Gyd-bwyllgorau Corfforedig eraill i weld a oes cyfle i rannu adnoddau ar gyfer rolau penodol neu lle mae angen sgiliau neu arbenigedd penodol.

16.5 Mae’n ofynnol yn ôl rheoliadau’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod rhaid ymgynghori â’r holl staff perthnasol pan fydd cyd-bwyllgor yn ymrwymo i gytundeb gyda chorff arall mewn perthynas â staffio. Pan fo staff yn cael eu trosglwyddo o gyngor cyfansoddol i Gyd-bwyllgor Corfforedig yna bydd darpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (ac eithrio rheoliadau 4(6) a (10)) yn berthnasol. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig am geisio cyngor ar faterion o’r fath, yn enwedig os yw staff yn cael eu trosglwyddo o nifer o gynghorau cyfansoddol gyda thelerau ac amodau cyflogaeth gwahanol.

16.6 Mae'r [Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu] (a elwir hefyd yn 'god dwy haen') a gyhoeddwyd dan ad19 Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn berthnasol i awdurdodau lleol ar hyn o bryd a'r bwriad yw cymhwyso hyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ac mewn unrhyw berthynas rhwng awdurdod lleol a Chyd-bwyllgor Corfforedig wrth gyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

## 17. Unigolion sy'n cael eu cyflogi'n gyhoeddus

17.1 Fel unigolion sy'n cael eu cyflogi'n gyhoeddus, bydd swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig:

- yn ddarostyngedig i'r un gofynion / gofynion tebyg o ran tryloywder / atebolrwydd ac ati â chyflogeion awdurdodau lleol
- yn cael buddiannau tebyg neu'r un buddiannau â swyddogion awdurdodau lleol
- yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau / cyfyngiadau tebyg o ran gweithgareddau gwleidyddol
- yn cael eu hindemnio wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig (gweler indemniad aelodau a staff)

17.2 Mae llawer o hyn wedi'i nodi yng Ngorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 a gymhwyswyd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gan Reoliad 3 o Reoliadau Cyffredinol 2021.

## 18. Cynrychiolaeth undebau llafur

18.1 Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae partneriaeth gymdeithasol yn dwyn ynghyd lywodraeth ar bob lefel, cyflogwyr ac undebau llafur mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, i ddylunio atebion gwell a'u rhoi ar waith.

18.2 Disgwylir y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio o dan yr un dull partneriaeth gymdeithasol ag sy'n bodoli rhwng undebau llafur ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cynnwys rôl undebau llafur at ddibenion ymgynghori a chyd-negodi mewn perthynas â materion perthnasol ac wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau. Dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried sefydlu cytundeb cydnabod undebau llafur priodol i gefnogi'r broses o gynrychioli a negodi.

## 19. Telerau ac amodau

19.1 Mae'n ofynnol yn ôl rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (paragraff 10 o'r atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu) fod Cyd-bwyllgor Corfforedig, pan fydd yn penodi staff, yn gwneud hynny o dan delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl) sy'n *sylweddol debyg i rai swyddogion o fewn cyngor cyfansoddol sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau sydd... ym marn y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhesymol o debyg.* Dylai'r rhain fod yn unol â'r telerau ac amodau a bennir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

19.2 Yr egwyddor sylfaenol yw na ddylai gweithwyr y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael eu trin yn fwy / llai ffafriol na chyflogeion awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu yn y rheoliadau yn cydnabod efallai na fydd swyddi y gellir eu cymharu'n uniongyrchol o fewn awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn enwedig o ystyried maint y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r swyddogaethau y maent yn eu gweithredu ar hyn o bryd, a'u maint i'r dyfodol.

19.3 Mae gwahaniaeth sylweddol eisoes ledled Cymru yn nhelerau ac amodau gweithwyr llywodraeth leol. Y bwriad yw osgoi sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n ceisio

sefydlu telerau ac amodau ychwanegol ac ar wahân i'r rhai sydd efallai yn bodoli eisoes mewn llywodraeth leol, ac felly ychwanegu cymhlethdod pellach at dirwedd sydd eisoes yn gymhleth. Yn wir, efallai y bydd cyfle i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig geisio safoni eu telerau ac amodau'n fwy cyffredinol gyda'i gilydd neu gyda'r cynghorau cyfansoddol yn eu rhanbarth, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Yn y lle cyntaf, rhagwelir y gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig ddefnyddio gwasanaethau swyddfa gefn un o'i gynghorau cyfansoddol (neu yn wir unrhyw brif gyngor yng Nghymru) er enghraifft, i ddarparu swyddogaethau adnoddau dynol, cyllid, caffael a chyflogres ac felly byddai dull mwy safonol o ymdrin â thelerau ac amodau yn fuddiol iawn.

## 20. Polisi tâl

20.1 Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei ddal yn atebol am y ffordd y mae'n ymdrin â thâl yn yr un modd ag y mae awdurdod lleol ar hyn o bryd. Bydd safoni dulliau gweithredu o'r fath yn sicrhau nad yw Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i erydu (neu i chwyddo) strwythurau tâl drwy drosglwyddo staff neu swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig. Lle mae yna wahaniaethau, rhaid i wahaniaethau o'r fath fod yn glir ac yn dryloyw.

20.2 Er mwyn sicrhau tryloywder mewn materion yn ymwneud â thâl, y bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi, bob blwyddyn, ddatganiad yn nodi polisïau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar dâl ei brif swyddogion, tâl ei weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf a'r berthynas rhwng tâl ei brif swyddogion a thâl ei weithwyr nad ydynt yn brif swyddogion.

## 21. Tryloywder ac atebolrwydd

21.1 Fel unigolion sy'n cael eu cyflogi'n gyhoeddus, mae swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhwym wrth yr un gofynion o ran tryloywder / atebolrwydd ac ati â gweithwyr awdurdodau lleol neu unrhyw benodiadau cyhoeddus eraill.

21.2 Bydd unrhyw un sy'n dal swydd sydd wedi'i chyfyngu'n wleidyddol o fewn Cyd-bwyllgor Corfforedig (boed hynny wedi'i benodi i'w rôl drwy gontract uniongyrchol, wedi'i gomisiynu neu drwy gytundeb benthyca arall) yn cael ei anghymhwyso rhag dod yn aelod, neu barhau i fod yn aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig neu'n aelod o awdurdod lleol (Rheoliad 10 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021). Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig baratoi a chynnal rhestr o swyddi sydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

21.3 Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn rhwym wrth yr un gofynion deddfwriaethol ag awdurdodau lleol o ran:

- Gwrthdaro rhwng buddiannau mewn trafodaethau staff
- Taliadau sy'n ddyledus i aelodau staff sydd wedi marw
- Cyfyngu ar wyliau blynyddol â thâl ar gyfer dyletswyddau awdurdod lleol
- Datgelu buddiant mewn contractau a gwahardd derbyn gwobrwyon

## 22. Swyddogion statudol

22.1 Yn yr un modd ag sy'n berthnasol i awdurdodau lleol ar hyn o bryd, bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu nifer o swyddogion statudol (gweler er enghraifft Swyddog Monitro – para 12.15, a Phrif Swyddog Ariannol – Pennod 5). Nid yw hyn o reidrwydd yn ofyniad i gyflogi unigolyn, neu unigolion, yn uniongyrchol i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Bydd yn bosibl i Gyd-bwyllgor Corfforedig fodloni unrhyw ofynion statudol yn y cyswllt hwn yn yr un modd hyblyg ag a amlinellir ar gyfer staffio cyffredinol uchod. Gallai hyn gynnwys rhannu adnoddau oddi mewn i'w

gynghorau cyfansoddol (neu unrhyw gyngor arall), y cyfeirir atynt weithiau fel ‘gwisgo dwy het’; comisiynu’r rôl gan gorff arall; neu recriwtio ar sail amser llawn neu ran amser fel y bo’n briodol. Mater i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu ar y dull o lenwi ei swyddogaethau swyddogion statudol, lle bo hynny’n briodol drwy ymgynghori â’i gynghorau cyfansoddol.

## 23. Pensiynau

23.1 Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddarparu a chyfrannu at bensiwn ar gyfer unrhyw un o’u staff y maent yn eu cyflogi’n uniongyrchol. Y bwriad yw y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn yr un ffordd ag y mae awdurdodau lleol yn ei wneud. Yn rhinwedd paragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gymwys fel endid cysylltiedig â chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Byddai dull gweithredu o’r fath yn hwyluso trosglwyddo staff rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a’r awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn sicrhau na ddylai rhwymedigaethau pensiwn gael eu crisialu o ganlyniad i unrhyw drosglwyddo staff a bod unrhyw staff sy’n trosglwyddo yn cadw eu darpariaeth a’u haelodaeth bresennol o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## Pennod Tri – Cyfarfodydd a thrafodion

Yn yr un modd ag awdurdodau lleol, mae'n bwysig bod penderfyniadau gwleidyddol o fewn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu gwneud yng ngolwg y cyhoedd, gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn sicrhau bod eu dinasyddion yn cael gwybod am ddatblygiadau polisi a bod cyfle i ymgynghori â nhw ar newidiadau polisi. Mae'n hanfodol ei gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd ddeall sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio; sut mae'n gwneud penderfyniadau; a sut gall pobl leol ddilyn y trafodion, rhoi eu barn a bod eu barn yn cael ei hystyried.

### 24. Tryloywder a bod yn agored

24.1 Mae tryloywder a bod yn agored mewn cyfarfodydd, trafodion ac wrth wneud penderfyniadau yn elfennau pwysig o sicrhau atebolrwydd democrataidd. Dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yr un mor agored/dryloyw â phrif gyngor wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd yn ofynnol i holl gyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gynnwys cyfarfodydd ei is-bwyllgorau:

- alluogi / caniatáu mynediad i'r cyhoedd a'r wasg i bob cyfarfod (yn amodol ar gyfyngiadau presennol ar ddatgelu gwybodaeth sy'n gyfrinachol ac wedi'i heithrio)
- rhoi hysbysiad i'r cyhoedd am gyfarfodydd yn electronig, gan gynnwys manylion am sut i gael mynediad
- cyhoeddi agenda, adroddiadau a phapurau cefndir ar gyfer unrhyw gyfarfodydd yn electronig
- cadw cofnod ffurfiol o'i drafodion a'r penderfyniadau a wnaed. Rhaid cyhoeddi'r cofnod yn electronig a sicrhau ei fod ar gael i aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac aelodau'r cynghorau cyfansoddol
- cadw cofrestr o aelodau a chyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob aelod

24.2 At ddibenion dogfennau cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'n ofynnol eu cyhoeddi, dim ond yn electronig y mae'n ofynnol darparu / cyhoeddi / dal y rhain. Fodd bynnag, bydd aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt fynediad at ddulliau electronig o gael gafael ar y dogfennau yn gallu gofyn i'r Cyd-bwyllgor roi copïau iddynt.

### 25. Strategaeth gyfranogi

25.1 Mae'n bwysig cofio y bydd y gwaith y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei wneud yn gallu effeithio ar fywydau nifer fawr o bobl. Mae'n gwbl briodol bod unigolion yn gallu cyfrannu at lunio gwasanaethau y maen nhw a'u teuluoedd yn dibynnu arnynt ac sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Bydd angen ymddiriedaeth a pharch rhwng cymunedau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn gosod sylfaen y gall pob parti gydweithio oddi arni i ateb a goresgyn yr heriau y bydd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu hwynebu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

25.2 Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig (Rheoliad 32 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021) annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd yn bwysig bod unrhyw ddull o annog cyfranogiad yn gymesur â'r swyddogaethau y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu harfer ac yn ystyried unrhyw ofynion ymgynghori penodol, boed nhw wedi'u nodi mewn statud neu mewn canllawiau, wrth arfer y swyddogaethau hynny.

25.3 Mae'n ofynnol yn ôl Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod awdurdodau lleol yn paratoi ac yn cyhoeddi strategaethau cyfranogi fel rhan o'u

dyletswydd i annog cyfranogiad. Mae adran 41 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ac adolygu'r strategaeth gyfranogi. Nid yw'r dyletswyddau hyn wedi cael eu cymhwyso i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, wrth annog y cyhoedd i gymryd rhan, bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'i ddyletswyddau i annog y cyhoedd i gymryd rhan (paragraff 25.2 uchod), a allai gynnwys datblygu strategaeth gyfranogi briodol a chymesur.

25.4 Gallai strategaeth o'r fath roi sylw i'r canlynol:

- ffyrdd o hybu ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig
- ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud
- trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, ar sut y gellir dwyn barn y cyhoedd i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol
- sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn bwriadu cydymffurfio â dyletswydd a osodir gan unrhyw ddeddfiad

25.5 Bydd yn bwysig bod y ffordd yr aiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ati i annog pobl i gymryd rhan yn diwallu anghenion cymunedau, gan adeiladu ar y trefniadau mewn cynghorau cyfansoddol a cheisio barn y dinasyddion yn yr ardal ynghylch sut y byddent yn dymuno cael eu cynnwys. Dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig adolygu'n rheolaidd ac, os yw'n briodol, ymgynghori ar ei ddull o annog y cyhoedd i gymryd rhan.

25.6 Bydd canllawiau ar sut i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno a chynnal strategaethau cyfranogi yn cael eu cynnwys yn y Llawlyfr Democratiaeth, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Y bwriad yw y bydd hwn ar waith yn ddiweddarach eleni er mwyn gallu gwneud trefniadau cyn i'r gweinyddiaethau newydd gael eu hethol ym mis Mai 2022. Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig lynu wrth yr egwyddorion yn y Llawlyfr Democratiaeth (pan fydd wedi'i gyhoeddi) wrth ystyried eu hagwedd at gyfranogiad y cyhoedd.

## 26. Cynllun deisebau

26.1 Bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig lunio a chyhoeddi cynllun deisebau gan nodi sut y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymdrin â deisebau ac yn ymateb iddynt, yn cynnwys deisebau electronig, yn yr un modd ag sy'n ofynnol gan awdurdodau lleol (Rheoliad 31 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021). Mae hyn yn golygu bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu yn yr un modd â llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill fel y Senedd ac, mewn perthynas â deisebau electronig, yn unol ag agenda ddigidol Llywodraeth Cymru. Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gadw at yr egwyddorion yn y Llawlyfr Democratiaeth (pan gaiff ei gyhoeddi) wrth ystyried eu dull gweithredu ar gyfer llunio a chyhoeddi cynllun deisebau.

## 27. Darlledu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

27.1 Bydd darlledu cyfarfodydd yn electronig yn galluogi unigolion na allant fynychu cyfarfodydd i weld a chlywed y trafodion sy'n effeithio ar eu bywydau ac i dystio i'r penderfyniadau a wneir a'r safbwynt a gymerir gan eu cynrychiolwyr. Yn ei hanfod, mae a wnelo'r darpariaethau hyn â thryloywder democratiaeth leol.

27.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth wleidyddol ac ariannol sylweddol i gyflwyno trefn o ddarlledu cyfarfodydd cyngor drwy ffrydio ar-lein ar y we. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol y cyfle i'r cyhoedd ddilyn gweithrediadau yn eu hawdurdod lleol.

27.3 Bydd y materion y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol amdanynt o ddiddordeb mawr i unigolion, cymunedau a'r cynghorau cyfansoddol. Mae'n briodol felly y dylai cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig, a chyfarfodydd ei is-bwyllgorau, sy'n agored i'r cyhoedd, fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion darlledu â phrif gyngor neu ofynion tebyg. Bydd y darpariaethau ar ddarlledu o fewn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (ad46 ac ad47) yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (Rheoliad 27 o Reoliadau Cyffredinol Rhif 2 2021). Yn unol â'r ffordd y gweithredir gydag awdurdodau lleol, bydd y darpariaethau hyn yn dod i rym ym mis Mai 2022. Fel cyrff corfforaethol newydd, mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hannog, lle bo hynny'n bosibl, i ystyried ac ymgorffori'r gofynion darlledu o'r dechrau.

27.4 Mae canllawiau pellach yn debygol o gael eu darparu yn y Llawlyfr Democratiaeth sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Lle mae hynny'n digwydd, dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried y dull gweithredu yn y canllawiau hynny fel petaent yn rhan o'r canllawiau hyn.

27.5 Y disgwyliad yw y bydd cyfarfodydd yn cael eu darlledu wrth iddynt gael eu cynnal, ac y byddant ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol o amser ar ôl y cyfarfod. Fodd bynnag, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, bydd trefniadau hyblyg ar gyfer darlledu yn cael eu hystyried. Rhagwelir y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried defnyddio cyfleusterau'r cynghorau cyfansoddol i ddarlledu ei gyfarfodydd. Efallai y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried trefniadau o'r fath wrth bennu'r gyllideb a gofynion cyllido Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 28. Cyfarfod cyntaf

28.1 Mae'r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu (paragraff 2(1) o Atodlen 1) ar gyfer cadeirio'r cyfarfod cyntaf, cyn i'r cadeirydd gael ei ethol gan gyngor cyfansoddol penodol. Er nad oes darpariaeth benodol ar gyfer hyn ar hyn o bryd, y disgwyl yw y byddai'r cyngor cyfrifol hefyd yn trefnu'r cyfarfod cyntaf. Fodd bynnag, lle mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn adeiladu ar drefniadau rhanbarthol presennol neu'n eu disodli, efallai y bydd swyddfeydd rhaglenni ar waith a allai ymgymryd â'r dasg hon.

28.2 Ar wahân i benodi'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd, nid oes gofynion yn y Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig o ran yr hyn y mae'n rhaid ei drafod yn y cyfarfod cyntaf, ond disgwylir y gallai gynnwys:

- penodi neu drafod penodi swyddogion gweithredol
- cytuno ar/trafod Rheolau Sefydlog
- cytuno ar/trafod cod ymddygiad a datgelu unrhyw fuddiannau / gwrthdaro
- cytuno ar/trafod is-bwyllgorau
- cytuno ar amserlen cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn
- cytuno ar leoliadau / trefniadau ar gyfer cyfarfodydd (rhithwir / ffisegol)

28.3 Yn amodol ar amseriad y cyfarfod cyntaf, efallai y bydd angen cytuno ar/gosod y gyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unol â Rheoliad 16(7) o'r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn ôl y rheoliad hwn mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig bennu ei gyllideb erbyn 31[ain] Ionawr 2022. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor

Corfforedig gyfarfod i gytuno ar ei gyllideb.

28.4 Bydd y cydbwysedd rhwng trafod a chytuno ar eitemau yn y cyfarfod cyntaf yn dibynnu ar faint o waith paratoi a wneir ymlaen llaw.

## 29. Cworwm mewn cyfarfod

29.1 Mae angen cworwm o ddim llai na 70% o'r bobl hynny sydd â hawl i bleidleisio ym mhob cyfarfod (gan gydnabod y gall hyn fod yn wahanol ar gyfer pob eitem yn dibynnu ar benderfyniadau unigol y Cyd-bwyllgor Corfforedig). Mae hyn yn cydbwyso'r angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig allu arfer ei swyddogaethau'n effeithiol a'r angen i sicrhau bod penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynrychioli'r mwyafrif o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio.

29.2 Mae'r cworwm hwn yn gymwys ac eithrio ar gyfer penderfyniadau yn ymwneud â chyllido gofyniad cyllidebol a mabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen. Bryd hynny rhaid i'r holl bersonau sydd â hawl i bleidleisio ar faterion o'r fath fod yn bresennol.

## 30. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

30.1 Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ond bydd trefniadau ac amseroedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rhaid i'r Cyd-bwyllgor gadarnhau / penodi'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd.

## 31. Cynnal cyfarfodydd eraill yn ôl penderfyniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chyfarfodydd eithriadol

31.1 Ar wahân i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd nifer ac amlder cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y rhain yn ddigon aml i ganiatáu i swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gael eu harfer yn effeithiol ac yn effeithlon ac i sicrhau tryloywder gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Rhagwelir y gall amlder cyfarfodydd newid yn dibynnu ar natur y swyddogaethau sydd i'w harfer neu'r camau yn y broses cynllunio, adrodd neu osod cyllideb. Efallai y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno ystyried amseriad ei gyfarfodydd mewn ffordd sy'n annog ac yn cefnogi amrywiaeth ymysg ei aelodau a chyfranogiad aelodau'r cyhoedd yn ei waith. Rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig ddarparu ar gyfer ei drefniadau o ran cyfarfodydd yn ei reolau sefydlog.

31.2 Gall unrhyw berson sydd â hawl i bleidleisio ar fater sydd i'w drafod / y penderfynir arno yn y cyfarfod hwnnw alw cyfarfod eithriadol o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar unrhyw adeg (paragraff 4 o'r Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu).

## 32. Cyfarfodydd aml-leoliad

32.1 Mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at yr anawsterau wrth ddibynnu ar ffyrdd traddodiadol o weithio mewn llywodraeth leol a'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r diffyg rhyngweithio digidol rhwng etholwyr a'r rheini sydd wedi cael eu hethol i'w cynrychioli.

32.2 Mae'r hyblygrwydd a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn golygu bod modd cynnal cyfarfodydd mewn nifer o leoliadau – y cyfeirir atynt fel cyfarfodydd aml-leoliad. Mae'r ymadrodd "cyfarfod aml-leoliad" yn disgrifio unrhyw gyfarfod sy'n golygu bod un neu fwy o'r rhai sy'n cymryd rhan yn y

cyfarfod yn ymuno â chyfarfod o leoliad ar wahân i siambr y cyngor neu ystafell bwyllgor awdurdod lleol neu leoliad ffisegol arall.

32.3 O dan y darpariaethau newydd, rhaid i awdurdodau wneud, a chyhoeddi, trefniadau i hwyluso cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd cwbl rithiol, cyfarfodydd rhannol rithiol neu hybrid ac, wrth gwrs, gyfarfodydd ffisegol. Rhaid i awdurdodau sicrhau bod modd cynnal pob cyfarfod sy'n dod o dan y darpariaethau hyn yn rhithiol. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid cynnal pob cyfarfod yn rhithiol, mater i'w benderfynu'n lleol fydd hynny.

32.4 Y bwriad yw y bydd y darpariaethau hyn ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad hefyd yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd modd cynnal cyfarfodydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (gan gynnwys cyfarfodydd is-bwyllgorau) yn rhithiol, mewn lleoliad ffisegol, neu gyfuniad o'r ddau. Bydd hyn yn galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyflawni ei fusnes mewn ffordd effeithiol ac effeithlon ac mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ei aelodau a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Tybir, oherwydd bod ei aelodau wedi'u gwasgaru yn ehangach yn ddaearyddol, y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnal y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd yn rhithiol.

32.5 Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw i ganllawiau (sydd i'w paratoi ar wahân), a fydd yn cynnwys y disgwyliad y dylid ystyried amgylchiadau personol unigolion wrth benderfynu ar y math o gyfarfodydd i'w cynnal.

## Pennod Pedwar - Llywodraethu a chraffu

Fel y trafodir ym Mhennod Tri, mae'n bwysig bod y broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol o fewn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dryloyw a bod modd dwyn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfrif a'u bod yn gallu cael eu herio am y penderfyniadau a wnânt. Bydd cael trefniadau llywodraethu a chraffu a pherfformiad priodol ar waith yn bwysig er mwyn cyflawni hyn. Felly, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth yr un gofynion o ran perfformiad, llywodraethu a chraffu ag awdurdodau lleol, ond disgwylir y byddai'r rhain yn gymesur â maint y swyddogaethau y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ymgymryd â nhw.

### 33. Perfformiad a llywodraethu

33.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu yn Rhan 6 ar gyfer cyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd ar gyfer awdurdodau lleol. Mae Rhan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu i ba raddau y mae'n cyflawni ei 'ofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- y mae'n meddu ar drefniadau llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

33.2 Y mecanwaith ar gyfer yr adolygiad hwn yw hunanasesiad, gydag adroddiad yn nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Law yn llaw â'r hunanasesiad cynhelir asesiad perfformiad gan banel yn cael ei arwain gan gymheiriaid unwaith mewn cylch etholiadol.

33.3 Mae canllawiau ar wahân wedi cael eu cynhyrchu i gefnogi cyflwyno'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu. Bwriedir i Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Felly, bydd y canllawiau ar y drefn perfformiad a llywodraethu yn berthnasol i Gyd-bwyllgor Corfforedig o ganlyniad i gymhwyso Rhan 6.

### 34. Trefniadau trosolwg a chraffu

34.1 Mae rheoliadau ar drosolwg a chraffu yn yr arfaeth ar gyfer gwanwyn 2022. Rhagwelir y bydd hyn wedi'i seilio ar graffu gan y cynghorau cyfansoddol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac nid craffu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ei waith ei hun. Bydd hyn yn rhan bwysig o atebolrwydd democrataidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fel rhan o ddull craffu cyffredinol y cyngor, dylai unrhyw drefniadau craffu gael eu cynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau craffu a gyhoeddir a'r Llawlyfr Democratiaeth (pan gaiff ei gyhoeddi).

34.2 Wrth ystyried y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon o graffu, dylai'r cynghorau cyfansoddol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried manteision cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n cynnwys y cynghorau cyfansoddol. Y nod a'r uchelgais amlwg, fodd bynnag, yw creu, hwyluso ac annog cyswllt democrataidd clir yn ôl i'r cynghorau cyfansoddol.

34.3 Fel rhan o'r rheoliadau a drafodir yn 34.1, cynigir y bydd gan aelodau a staff Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgor craffu; mynychu cyfarfodydd pwyllgor os gofynnir iddynt wneud hynny; ac ystyried unrhyw adroddiad neu argymhellion a wneir gan bwyllgor o fewn y trefniadau y cytunwyd arnynt ac sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 35. Llywodraethu ac archwilio

35.1 Bydd yn ofynnol hefyd i Gyd-bwyllgor Corfforedig fod â'i is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio ei hun. Mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, cyfeirir at hyn fel 'pwyllgor llywodraethu ac archwilio', ond gan fod y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun yn bwyllgor mae'n briodol cyfeirio ato fel is-bwyllgor mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

35.2 Mae swyddogaethau'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio fel a ganlyn: (gweler hefyd baragraff 16(1) o'r Rheoliadau i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig)

- adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny
- goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig
- arfer unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig

35.3 Bydd aelodaeth pwyllgor llywodraethu ac archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig fel a ganlyn (nodir, ar adeg cyhoeddi, y bydd angen diwygio'r Rheoliadau Sefydlu i gyflawni hyn. Bwriedir gwneud hynny yng ngwanwyn 2022):

- rhaid i ddwy ran o dair o'r aelodau fod yn aelodau o'r cynghorau cyfansoddol; a
- rhaid i un rhan o dair o'r aelodau fod yn bersonau nad ydynt yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

35.4 Yn y ddau achos uchod, ni all aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn aelod o weithrediaeth cyngor cyfansoddol neu'n aelod cyfetholedig (mae aelod cyfetholedig yn yr achos hwn yn golygu person sydd wedi'i gyfethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ar wahân i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio).

35.5 Rhagwelir y bydd gofyn i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr o leiaf. Mae adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diwygio adran 82 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel bod yn rhaid i gadeirydd y pwyllgor llywodraethu ac archwilio fod yn aelod lleyg – bwriedir i hyn fod yn berthnasol i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd. Nid yw'r diwygiadau hyn yn dod i rym tan ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2022. Fodd bynnag, gan ragweld y bydd y ddarpariaeth berthnasol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael ei rhoi ar waith, ac er mwyn osgoi'r angen i ddiwygio'r dull gweithredu yn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio fel pe bai'r diwygiadau yn Adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cychwyn.

## Pennod Pump – Ariannu, cyllid a materion cyllidebol

Rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau ei fod yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei swyddogaethau a'i weithgareddau penodol ac mae'n ofynnol iddo roi trefniadau rheoli ariannol ar waith sy'n unol â'r broses bresennol o gadw cydbwysedd – gan gynnwys y rheolau a'r dyletswyddau ariannol sy'n mynnu bod cynghorau'n gweithredu'n ddoeth o ran gwariant, ac yn cael eu goruchwylio a'u gwirio gan Brif Swyddog Cyllid cyfrifol. Bydd arferion cyfrifyddu priodol a threfniadau archwilio allanol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol ac annibynnol ynghylch effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

### 36. Gofynion cyllidebol

36.1 Mae'n ofynnol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig gyfrifo ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y symiau sy'n ofynnol i arfer ei swyddogaethau, a'r gwariant sy'n gysylltiedig â chostau gweinyddol a gorbenion, yn ogystal â swm ar gyfer eitemau digwyddiadol, cronfa wrth gefn, a swm i dalu am unrhyw rwymedigaethau sy'n ddyledus (Rheoliad 16 o'r Rheoliadau Sefydlu). Y bwriad yw bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei swyddogaethau/gweithgareddau penodol, gan gynnwys gwariant sy'n gysylltiedig â chostau gweinyddol a gorbenion.

36.2 Wrth gyfrifo ei ofynion cyllidebol, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd ystyried unrhyw amcangyfrif o'r cyllid y mae'n disgwyl ei gael gan ffynonellau cyllid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff y sector preifat, cyrff y trydydd sector a chyrff gwirfoddol.

36.3 Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gytuno ar ei ofynion cyllidebol a'r symiau sy'n daladwy gan bob awdurdod lleol cyfansoddol mewn cyfarfod cyn 31 Ionawr yn union cyn dechrau cyfnod cyllido. Byddai hyn yn cynnwys y cyfrifiadau ar wahân sy'n ymwneud â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol sy'n ofynnol mewn perthynas â'r swyddogaeth cynllunio strategol.

36.4 Er mwyn hwyluso'r cytundebau hyn, disgwylir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgysylltu â'i holl gynghorau cyfansoddol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol yn gynnar yn y broses o bennu'r gyllideb, a bydd yn cael ei annog i wneud hynny. Rhagwelir y dylai hyn ddigwydd mor gynnar â mis Tachwedd cyn cychwyn y cyfnod cyllido.

36.5 Mae'r swm sy'n daladwy gan bob un o'r cynghorau cyfansoddol (ac, ar gyfer cynllunio datblygu strategol, yr Awdurdod Parc Cenedlaethol) i'w bennu drwy ddosrannu costau o'r fath rhwng y cynghorau cyfansoddol (ac, ar gyfer cynllunio datblygu strategol, y cynghorau cyfansoddol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol) yn ôl unrhyw gyfrannau y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cytuno arnynt (Rheoliad 17 o'r Rheoliadau Sefydlu). Rhaid cytuno ar ariannu'r gofyniad cyllidebol drwy benderfyniadau unfrydol y rhai sydd â hawl i bleidleisio ar faterion o'r fath. Os na fydd cytundeb unfrydol gan bawb sydd â hawl i bleidleisio ar faterion o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn nodi'r symiau sy'n daladwy gan y cynghorau cyfansoddol.

36.6 Ar gyfer y symiau taladwy a bennir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatgelu'r ffactorau a'r meini prawf a ystyriwyd, neu'r dulliau, yr egwyddorion a'r rheolau a fabwysiadwyd yn ei fformiwla ar gyfer y symiau taladwy ar gyfer ei swyddogaethau (gan gynnwys unrhyw ffactorau, meini prawf, dulliau, egwyddorion neu reolau newydd).

36.7 Caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ddiwygio ei ofyniad cyllidebol unrhyw bryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r gyllideb yn berthnasol iddi (Rheoliad 16 o’r Rheoliadau Sefydlu). Rhaid i unrhyw gytundeb i wneud hynny fod yn gytundeb unfrydol rhwng pawb sydd â hawl i bleidleisio ar faterion o’r fath. Dim ond mewn achosion eithriadol y disgwylir i hyn gael ei wneud pan fydd y gofyniad cyllidebol presennol ar gyfer blwyddyn ariannol yn mynd i fod yn annigonol iawn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyflawni ei swyddogaethau. Cyn penderfynu diwygio ei ofyniad cyllidebol, dylai’r Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried ei holl opsiynau eraill i fynd i’r afael ag unrhyw heriau ynghylch llif arian dros dro y mae’n eu hwynebu, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn a cheisio benthyciadau dros dro neu gyfleusterau gorddrafft.

## 37. Ariannu’r gofyniad cyllidebol

37.1 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Ionawr cyn dechrau cyfnod cyllido, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gadarnhau'n ysgrifenedig y trefniadau i'r symiau taladwy gael eu talu gan y cynghorau cyfansoddol. Mater i’r awdurdodau cyfansoddol a’r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd sut y telir y symiau taladwy i Gyd-bwyllgor Corfforedig, gan ystyried yr heriau llif arian perthnasol.

## 38. Cyllideb blwyddyn gyntaf

38.1 Mae’n debygol y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio adnoddau gan un neu bob un o’i awdurdodau cyfansoddol yn ei flwyddyn gyntaf (2021/22) i dalu am gostau cysylltiedig neu gostau gweinyddol a allai godi cyn i unrhyw gyllideb gael ei phennu’n ffurfiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf hon neu ar gyfer y cyfnod 2022/23. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r cynghorau cyfansoddol wrth ystyried y broses gychwynnol o sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac yn benodol y broses o drosglwyddo’r swyddogaethau ac unrhyw drefniadau rhanbarthol presennol i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae’n bosibl y bydd y gefnogaeth hon yn mynd rhywfaint o’r ffordd tuag at gefnogi gofynion ymarferol paratoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf a’i gynnal. Tybir hefyd y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn defnyddio cyfleusterau’r awdurdodau lleol cyfansoddol lle bynnag y bo modd, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf, hynny yw, cyfleusterau ar gyfer cyfarfodydd, Adnoddau Dynol a swyddogaethau swyddfa gefn eraill.

38.2 Serch hynny, wrth fynd ati i bennu ei gyllideb ar gyfer cyfnod ariannol 2022-23, efallai y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig am ystyried unrhyw ofynion cyllidebol ar gyfer gweddill cyfnod ariannol 2021/22. Os nad oes gofynion o’r fath, gellir nodi hynny yn ffurfiol.

## 39. Arferion a rheolaethau cyfrifyddu

39.1 Bydd y cyllid gan gynghorau cyfansoddol yn cael ei ddal a’i reoli gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Wrth wneud hynny, bydd yn ddarostyngedig i’r un trefniadau rheoli ariannol â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru a bydd yn gorfod cydymffurfio â’r un gofynion statudol:

- Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (“Rheoliadau 2003”) yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer y drefn reoleiddio i weithredu rheolaethau cyfrifyddu a chyllid cyfalaf sy'n berthnasol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Maent hefyd yn addasu arferion cyfrifyddu mewn gwahanol ffyrdd i atal effeithiau niweidiol ar adnoddau refeniw awdurdodau.

- Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) yn darparu'r drefn reoleiddio sy'n sail i adroddiadau ariannol a chyfrifyddu cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

39.2 Wrth baratoi cyfrifon ariannol, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddilyn arferion priodol a ragnodir yn Rheoliadau 2003, a ddiffinnir fel:

a) y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae’r Cod yn nodi’r egwyddorion a’r arferion cyfrifyddu sy’n ofynnol i baratoi datganiadau ariannol sy’n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion awdurdod lleol. Mae’r Cod hwn yn cael ei baratoi o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), sydd wedi cael eu mabwysiadu fel sail ar gyfer cyfrifyddu yn y sector cyhoeddus yn y DU.

b) *Governance and accountability for Local Councils: A Practitioners Guide 2011 (Wales)* fel y bydd, o bosib, yn cael ei ddiwygio [neu ei ailgyhoeddi] o bryd i’w gilydd

39.3 Mae’r dogfennau hyn yn ystyried y darpariaethau manwl yn Rheoliadau 2003 gan sicrhau bod cyrff llywodraeth leol yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth wrth baratoi datganiadau ariannol i roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion awdurdod lleol. Bydd pa un o’r ddwy ddogfen ‘arfer priodol’ y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei dilyn yn dibynnu ar eu maint, a nodir hyn yn Rheoliadau 2014.

## 40. Cadw, paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol blynyddol

40.1 Mae Rheoliadau 2014 yn cynnwys cyfrifoldebau pwysig dros reoli ac effeithiolrwydd rheolaeth ariannol corff llywodraeth leol gan gynnwys; trefniadau llywodraethu; paratoi datganiadau cyfrifyddu; llofnodi a chymeradwyo cyfrifon a rhyngweithio â’r cyhoedd o ran sicrhau bod dogfennau ar gael drwy gyhoeddi neu arolygu.

## 41. Archwilio a chyfrifyddu priodol

41.1 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth drefniadau archwilio a chyfrifyddu priodol a nodir yn Rheoliadau 2014, ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus sy’n orfodol. Bydd dull o’r fath yn rhoi sicrwydd gwrthrychol ac annibynnol ynghylch effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu’r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

41.2 Bydd cyfrifon y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn destun adolygiad drwy archwiliad allanol blynyddol, gan roi barn ar a yw’r cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o faterion ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig a chasglu a yw’r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn ôl y diben a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn darparu, ymhlith pethau eraill, i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol.

## 42. Darparu a derbyn nwyddau a gwasanaethau

42.1 Caniateir i Gyd-bwyllgor Corfforedig ‘fasnachu’ gyda chyrff cyhoeddus eraill yn yr un ffordd ag y gall awdurdod lleol a lywodraethir gan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970. Mae hyn yn caniatáu i Gyd-bwyllgor Corfforedig wneud cytundebau gyda chyrff cyhoeddus ar gyfer darparu nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, ar gyfer defnyddio cerbydau, offer a chyfarpar, ac ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig

hefyd yn cael pŵer i fasnachu at ddibenion masnachol fel rhan o'r rheoliadau a gynigir ar gyfer gwanwyn 2022 a gorchymyn pŵer i fasnachu wedi'i ail-wneud o dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

## 43. Arferion buddsoddi

43.1 Fel corff atebol, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am weinyddu a chywirdeb ariannol priodol y cyllid y mae'n ei dderbyn. Rhaid i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a rhaid iddo fod yn gyfrifol am fynd ati'n briodol i weinyddu ei faterion ariannol a'i weithgareddau rheoli trysorlys.

43.2 Bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y gallu i fuddsoddi ar gyfer unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad, neu at ddibenion rheoli ei faterion ariannol yn ddarbodus yn yr un ffordd ag y gall awdurdod lleol. Rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig felly roi sylw i ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru Canllawiau Statudol i Lywodraeth Leol ar Fuddsoddi a gyhoeddwyd o dan adran 15(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae hyn yn annog awdurdodau lleol i fuddsoddi'n ddoeth, gan gadw mesurau diogelu, ac i gymeradwyo a thrwy hynny lunio:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Strategaeth Cyfalaf

## 44. Cael benthyg

44.1 Bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y gallu i gael benthyg ar gyfer unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau, neu at ddibenion rheoli ei faterion ariannol yn ddarbodus, ac wrth wneud hynny rhaid iddo roi sylw i'r arferion priodol a nodir yn:

- y ddogfen o'r enw “Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes" a gyhoeddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth fel y bydd, o bosib, yn cael ei diwygio [neu ei hailgyhoeddi] o bryd i'w gilydd
- the Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities a gyhoeddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth fel y bydd, o bosib, yn cael ei ddiwygio [neu ei ailgyhoeddi] o bryd i'w gilydd

44.2 Ni ragwelir y bydd angen adnoddau cyfalaf sylweddol, drwy gael benthyg, yn y blynyddoedd cynnar er mwyn cyflawni swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig. Nid yw'r trefniadau deddfwriaethol presennol yn caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fenthyca gan gyfleuster benthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Rheoli Dyledion y DU ar ran Trysorlys ei Mawrhydi. Felly, gall Cyd-bwyllgor Corfforedig sydd ag uchelgais gynnar i gael benthyg ofyn i'w gynghorau cyfansoddol i gytuno i gael benthyciad o'r fath yn yr un modd â'r trefniadau presennol ar gyfer Bargeinion Dinesig.

## Pennod Chwech – Dyletswyddau statudol eraill

Fel sydd yn wir am unrhyw gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, bydd disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio â dyletswyddau sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus. Mae'r rhain yn elfen allweddol o'r modd y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru.

### 45. Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel corff cyhoeddus yng Nghymru

45.1 O'r cychwyn un, bydd angen i aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried sut y bydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso egwyddorion a safonau sylfaenol y dyletswyddau hyn ym mhopeth a wna.

45.2 Dylai pob Cyd-bwyllgor Corfforedig ystyried y ffordd orau o gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus a sut y bydd yn galluogi, diogelu ac yn datblygu arferion ei gynghorau cyfansoddol, gan ystyried ei amgylchiadau unigryw ei hun. Bydd hyn yn cynnwys ei ddyletswyddau i:

- hyrwyddo datblygu cynaliadwy a rhoi hynny ar waith; rhoi mwy o ystyriaeth i'w effaith hirdymor; a monitro ac asesu i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion llesiant mewn perthynas â chydweithredu, cymryd rhan a mabwysiadu dull gweithredu integredig (er enghraifft, ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- hybu'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn wahanol nac yn llai ffafriol na'r Saesneg; sicrhau bod ei staff yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ei wneud yn rhan annatod o gynllunio'r gweithlu; a hybu cydweithio wrth ddarparu ei wasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau bod gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn eu dewis iaith (bydd gofyn i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gydymffurfio â dyletswyddau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015)
- galluogi mwy o amrywiaeth a chydraddoldeb drwy fynd ati o ddifrif i gynnwys eraill yn ei waith fel ei fod yn gallu ymateb i ffyniant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn ei ardal; creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif ac agwedd ehangach at ei waith; ac ystyried cefndiroedd ac amgylchiadau, rhyw, oed ac amrywiaeth ddiwylliannol er mwyn adlewyrchu'n well amrywiaeth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu (er enghraifft, ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
- rhoi sylw dyledus, wrth wneud penderfyniadau strategol, i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol (Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Deddf Cydraddoldeb 2010)
- ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yn unol â'u dyletswyddau o dan a6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

45.3 Yn ogystal, wrth wneud unrhyw beth sy'n effeithio ar ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol, bydd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried sut y gallant gefnogi dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol ymhellach i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc.

45.4 Er bod y canllawiau'n nodi rhai o'r gofynion cyfreithiol allweddol yn y maes hwn a fydd yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, mae'n bwysig nodi nad yw'n ceisio atgynhyrchu deddfwriaeth neu ganllawiau sydd eisoes yn bodoli.

## 46. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

46.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol") yn darparu'r cyd-destun y dylai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fod yn cyflawni eu swyddogaethau ynddo, yn defnyddio eu hadnoddau ac yn sicrhau bod eu llywodraethu'n effeithiol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y bo modd at y nodau llesiant o fewn cwmpas eu swyddogaethau / cyfrifoldebau. Mae'r Ddeddf yn rhoi fframwaith ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau a dylai hyn siapio beth mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei wneud, sut maen nhw'n gwneud hynny, a sut maen nhw'n cyfleu'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud i gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (tymor hir, cydweithio, cynnwys, atal ac integreiddio) yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun Cyd-bwyllgor Corfforedig.

46.2 Wrth ystyried sut mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig roi sylw dyledus i'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddeddf sy'n cynnwys set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus. Sef:

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio'r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg
- Rheoli perfformiad

46.3 Wrth ystyried o'r cychwyn cyntaf y saith maes corfforaethol fel fframwaith ar gyfer sefydlu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol y Cyd-bwyllgor Corfforedig, a chymhwyso'r pum ffordd o weithio i'r meysydd hynny, bydd hyn yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i sicrhau ei fod yn llywodraethu ei hun er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint ag y bo modd at y nodau llesiant a chyflawni ei amcanion llesiant.

46.4 Mae angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gydnabod a chynllunio eu hymateb i'w dyletswyddau llesiant mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu huchelgeisiau a'u swyddogaethau. Mae cyfle clir i'r ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu gwreiddio a'u cynnwys yn nhrefniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r adeg y caiff ei sefydlu.

46.5 Er enghraifft, un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw 'integreiddio', sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, yn ogystal â'i gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Efallai y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn awyddus i ystyried gwahanol opsiynau wrth bennu eu hamcanion llesiant a'u camau ond bydd angen iddynt, fodd bynnag, sicrhau bod eu dull yn cael ei integreiddio er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ac annog defnyddio adnoddau'n effeithlon.

46.6 Gall y Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yn eu hardal, yn ogystal â gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wrth bennu eu hamcanion llesiant a'u camau i sicrhau cysondeb.

46.7 Gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddewis, er enghraifft, weithio gyda'u cynghorau cyfansoddol ar gydamcanion llesiant mewn meysydd perthnasol gyda gwahanol gyrff yn gyfrifol am gamau unigol i helpu i gyflawni'r cydamcanion hyn. Bydd cymhwyso'r 5

ffordd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn helpu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, eu cynghorau cyfansoddol a chyrff cyhoeddus eraill i bennu'r amcanion a'r camau y gallant weithio arnynt gyda'i gilydd i gyflawni eu dyletswyddau ar y cyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynyddu eu cyfraniad unigol a chyfunol at gyflawni'r nodau.

46.8 Fel arall, gall y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddewis gosod amcanion llesiant a chamau ar wahân a bodloni'r rheini yn annibynnol ar y cyrff cyhoeddus eraill yn eu hardal. Os felly, mae'n bwysig sicrhau bod yr egwyddor integreiddio'n cael ei rhoi ar waith a bod amcanion eu cynghorau cyfansoddol yn cael eu mapio allan a'u bod yn gyson ag amcanion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

## 47. Y Gymraeg

47.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n bywydau bob dydd. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd yng Nghymru, ble bynnag rydym ni a pha lefel bynnag o Gymraeg sydd gennym fel unigolion. Disgwylir y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn creu ac yn meithrin awyrgylch lle gall y defnydd o'r Gymraeg gynyddu yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Disgwylir hefyd y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio mewn partneriaeth i gyfrannu at gyflawni gweledigaeth gyffredin Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, a gyhoeddwyd yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

*"Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru."*

47.2 Bydd disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon a thair thema'r strategaeth;

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

47.3 Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un Safonau Cymraeg ag awdurdodau lleol – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau Rhif 1"). Mae Rheoliadau Rhif 1 hefyd yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyhoeddi Hysbysiadau Cydymffurfio, sy'n nodi'r dyletswyddau y mae'n rhaid i bob corff unigol gydymffurfio â hwy.

47.4 Mae 5 dosbarth o safonau yn Rheoliadau Rhif 1:

- **Safonau cyflenwi gwasanaethau** sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau er mwyn hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- **Safonau llunio polisi** sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried pa effaith y bydd y penderfyniadau polisi yn ei chael ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar yr egwyddor i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- **Safonau gweithredu** sy'n ymwneud â defnydd mewnol cyrff o'r Gymraeg. Os gosodir safonau gweithredu ar gorff, bydd disgwyl i'r corff hwnnw gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu trefniadau mewnol
- **Safonau hybu** sef safon y bwriedir iddi hybu defnyddio'r Gymraeg yn fwy eang. Mae'r dosbarth hwn o safonau'n cynnwys dyletswydd i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut mae'n bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- **Safonau cadw cofnodion** - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan gorff. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg i reoli'r broses o wneud yn siŵr bod y corff yn cydymffurfio â'r safonau

47.5 Mae Rheoliadau Rhif 1 hefyd yn pennu safonau sy'n ymdrin â materion atodol sy'n ffurfiau penodol ar y dosbarthiadau o safonau a nodir uchod.

47.6 Bydd cymhwyso'r safonau o fewn Rheoliadau Rhif 1 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fel hyn yn:

- sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn glir ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig
- rhoi eglurder i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ynghylch y dyletswyddau Cymraeg y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw drwy'r amser er mwyn gwella lefel y gwasanaethau Cymraeg maent yn eu darparu
- sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg
- sicrhau bod cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau

47.7 Mae'n debygol y bydd gwahaniaethau yn y defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn cynghorau cyfansoddol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac o ran y gwasanaethau maent yn eu darparu yn y Gymraeg. Cydnabyddir bod y gwahaniaethau hyn yn ymateb i wahanol anghenion y cymunedau y mae pob cyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu gwasanaethu. Mater i Gomisiynydd y Gymraeg benderfynu arno yw'r safonau perthnasol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw nodiadau cydymffurfio perthnasol. Caiff Comisiynydd y Gymraeg hefyd osod safonau gweithredu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig a fydd yn pennu lefel y gwasanaethau Cymraeg y mae'n rhaid iddynt eu darparu i staff.

47.8 Ar ôl sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel cyrff corfforaethol newydd, byddem yn disgwyl i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, o'r cychwyn un, wreiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain ac mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg maent yn eu darparu. Mae hyn yn arbennig o bwysig cyn i Gomisiynydd y Gymraeg osod y safonau ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 48. Cydraddoldeb

48.1 Bydd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyrwyddo cydraddoldeb a chwarae eu rhan i greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth nifer o ddyletswyddau o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau statudol hyn fydd yn sail i'w rhwymedigaethau ar gydraddoldeb. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodwedd warchodedig. Mae Deddf 2010 hefyd yn gosod dyletswydd 'sylw dyledus' (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus 6) ar gyrff cyhoeddus, i sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal yn ystyriaeth allweddol i gyrff cyhoeddus perthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau.

<u>Dyletswydd economaidd-gymdeithasol</u>

48.2 Bydd Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig fel 'corff cyhoeddus perthnasol', wrth wneud penderfyniadau strategol fel 'penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion', ystyried sut gallai ei benderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol – gan arwain at ganlyniadau

gwell i fywydau a phrofiadau pobl drwy wneud penderfyniadau gwell a chyfrannu ymhellach at ein nod cyffredin o ddod yn “Gymru sy’n fwy cyfartal”.

48.3 Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau am y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

48.4 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae Adran 149 o’r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd, yn gryno, yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran yr angen i:

- Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu

48.5 Dyma’r naw nodwedd warchodedig: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; a phriodas a phartneriaeth sifil.

48.6 Fel awdurdod cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn rhwym wrth ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

48.7 Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb, gan weithio i ddileu gwahaniaethu, lleihau anghydraddoldeb, gwarchod hawliau dynol a meithrin cysylltiadau da, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gymryd rhan mewn cymdeithas. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rheoleiddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac mae’n gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus i annog, arwain, monitro a rheoleiddio gweithgarwch ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae rhagor o ganllawiau a chyngor am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ar gael ar Wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

48.8 Mae’r canllawiau Mapio’r Dyletswyddau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn darparu cyngor ar gyfer cysoni, lle y bo’n briodol, brosesau sefydliadol cyffredin a wneir gan gyrff cyhoeddus o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.

## 49. Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

49.1 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i’r dyletswyddau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn un o’r Awdurdodau Cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. Bydd yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i’r graddau y mae hynny’n gyson ag arfer eu swyddogaethau’n briodol ac, wrth wneud hynny, hybu cydnerthedd ecosystemau.

49.2 Er mwyn cydymffurfio â’r ddyletswydd adran 6, dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ymgorffori’r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau cynnar a’u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau,

yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth gydymffurfio â dyletswydd a6, roi sylw i'r canlynol:

- Rhestr adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf i Gymru
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Unrhyw Ddatganiad Ardal sy'n cynnwys yr ardal gyfan neu ran o'r ardal y mae'r awdurdod yn arfer ei swyddogaethau ynddi, ar ôl cynhyrchu'r rhain.

49.3 Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan y dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd A6. Mae rhagor o ganllawiau ar ffurf Cwestiynau Cyffredin ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae Canllaw Arfer Da ar gael gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

49.4 Rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â dyletswydd a6. Rhaid iddynt hefyd lunio a chyhoeddi adroddiad ar yr hyn maent wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd a6 erbyn 31 Rhagfyr 2022 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn. Mae'r canllawiau adrodd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

49.5 Wrth gydymffurfio â dyletswydd a6, bydd hyn hefyd yn helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gynyddu eu cyfraniad at gyflawni nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 50. Rhyddid Gwybodaeth

50.1 Bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gorff corfforaethol yn ei hawl ei hun ac felly ni fydd yn dod yn awtomatig o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fodd bynnag, y bwriad yw y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddod o dan y ddeddf honno, ac felly mae cais wedi'i wneud i Lywodraeth y DU i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at yr atodlen o awdurdodau cyhoeddus dan Atodlen 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Bydd ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y Ddeddf fel hyn yn dibynnu ar offeryn perthnasol yn cael ei greu gan Lywodraeth y DU. Nid ydym yn gwybod pryd y gallai hyn ddigwydd, ond yn y cyfamser dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ymddwyn cyn belled ag y bo modd fel pe baent yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ond, hyd nes y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, cydnabyddir na fydd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth awdurdodaeth dros Gyd-bwyllgor Corfforedig nac unrhyw gŵyn a wneir yn erbyn Cyd-bwyllgor Corfforedig.

50.2 Mae canllawiau am ryddid gwybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

# Atodiad A – Crynodeb o’r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig

## Cam 1 - Rheoliadau Sefydlu

Cafodd y rheoliadau a oedd yn creu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru (“y Rheolau Sefydlu”) eu gwneud ar 17 Mawrth 2021, a sefydlwyd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig canlynol ar 1 Ebrill 2021:

- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021

## Offerynnau a osodwyd ochr yn ochr â’r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Gwnaed y rheoliadau/gorchmynion canlynol ochr yn ochr â’r Rheoliadau Sefydlu ym mis Mawrth 2021.

### Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 yn ceisio sicrhau, fel rhan o’r broses ehangach o gymhwyso fframwaith moesegol llywodraeth leol, bod aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i safonau ymddygiad priodol. Mae’r rheoliadau cyffredinol hefyd yn sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth drefn briodol o ran cyfrifyddu, archwilio a rheolaeth ariannol. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 hefyd yn gwneud nifer bach o fân ddiwygiadau i; gefnogi’r trefniadau angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol; i sicrhau bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn trin aelodau’r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfartal; ac i ddarparu ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddal a gwaredu asedau.

### Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

Mae’r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 (“rheoliadau diwygio”) yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae’r rheoliadau diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn agored i gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg o fewn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021

Mae Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021 (“Gorchymyn diwygio”) yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r Gorchymyn diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Adran 149) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021

Mae Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021 (“rheoliadau diwygio”) yn diwygio Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon

Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae'r rheoliadau diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 lle bo'n berthnasol.

**Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021**

Mae Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 ("Gorchymyn diwygio") yn diwygio'r rhestr o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn adran 12(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ynghylch archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus yng Nghymru a materion cysylltiedig. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rhan 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Gorchymyn diwygio hefyd yn gwneud mân ddarpariaeth, darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth atodol.

**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021**
Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021 ("rheoliadau diwygio") yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ("rheoliadau 2014") a wnaed o dan adran 39 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. (Cawsant eu gwneud ar 18 Mawrth 2021, o dan y weithdrefn negyddol). Mae'r rheoliadau diwygio'n darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliadau 2014 lle bo hynny'n berthnasol. Cafodd Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 hefyd eu gwneud ochr yn ochr â'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac roeddent yn darparu ar gyfer yr addasiadau perthnasol i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 sy'n ofynnol er mwyn i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfer y swyddogaeth cynllunio trafnidiaeth.

## Cam 2 - Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Gwnaed Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 ym mis Tachwedd 2021. Maent yn darparu ar gyfer rolau 'swyddogion gweithredol' penodol i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ogystal â rhai darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â staff y Cyd-bwyllgorau, i alluogi i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan bobl eraill, er enghraifft ei staff neu ei is-bwyllgorau, ac ar gyfer cyfarfodydd a thrafodion. Maent hefyd yn gwneud nifer bach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol i weithredu'r darpariaethau hyn yn llawn.

**Offerynnau a osodwyd ochr yn ochr â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021**
Gwnaed y rheoliadau canlynol ochr yn ochr â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 ym mis Tachwedd 2021.

**Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021**
Mae Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Diwygio) 2021 yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau Rhif 1"). Mae'r Rheoliadau'n dod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn cwmpas y safonau a bennir gan Reoliadau Rhif 1 ac yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i wneud hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r corff hwnnw. Effaith hyn yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff sy'n atebol i gydymffurfio â Rheoliadau Rhif 1 ac y gallai'r safonau penodedig fod yn

gymwys iddynt, sef y safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi, y safonau gweithredu, y safonau hybu a’r safonau cadw cofnodion.

**Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021**
Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021 yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau'n diwygio ystyr corff cyhoeddus yn adran 6, drwy ychwanegu Cyd-bwyllgor Corfforedig at y rhestr. Effaith hyn yw bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyrff sy'n agored i gydymffurfio â Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021**
Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn diwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, at y rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

**Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021**
Mae Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 yn diwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fewn y diffiniad o ‘awdurdod cyhoeddus’ yn adran 6(9) sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru wrth wneud penderfyniadau.

**Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021**
Mae Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021 yn diwygio adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir, neu sy'n effeithio ar dir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, yn rhoi sylw i’r dibenion o gadw a gwella harddwch naturiol yr ardal.

**Rheoliadau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021**
Mae Rheoliadau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Ystyr Corff Cyhoeddus) (Cymru) 2021 yn diwygio adran 11A o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â thir, neu sy'n effeithio ar dir, mewn Parc Cenedlaethol, yn rhoi sylw i’r dibenion a bennir yn adran 5(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Y dibenion hyn yw cadw a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau nodweddion arbennig Parciau Cenedlaethol gan y cyhoedd.

**Rheoliadau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio'r Rhestr o Awdurdodau Cymreig) 2021**

Mae Rheoliadau Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio'r Rhestr o Awdurdodau Cymreig) 2021 yn diwygio adran 6(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 er mwyn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, at y rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt wneud a dangos eu cyfraniad at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, felly, baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru a'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth.

**Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021**

Mae Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021 yn nodi'r gofynion o ran paratoi, adolygu, adnewyddu, cyhoeddi ac arolygu strategaeth tlodi plant a baratoir gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig o dan adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r Rheoliadau'n nodi hyd y strategaeth gyntaf ar dlodi plant a strategaethau olynol i'w paratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig, amseriad a dull eu cyhoeddi a'u harolygu, y gofynion o ran adolygu'r strategaeth tlodi plant a'r gofynion ymgynghori. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011 er mwyn datgymhwyso'r rheoliadau hynny i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.